Polisi'r CPS ar Erlyn Achosion o Drais yn y Cartref

Mawrth 2009

Cynnwys

1 Rhagarweiniad 3

2 Beth yw trais yn y cartref? 10

3 Swyddogaeth y CPS 12

4 Y Côd ar Gyfer Erlynwr y Goron 16

5 A oes digon o dystiolaeth i erlyn? 19

6 A yw erlyn er budd y cyhoedd? 27

7 Mechnïaeth 28

8 Penderfynu ar y cyhuddiadau a derbyn pledion 33

9 Osgoi oedi 35

10 Achosion sifil 36

11 Cefnogaeth a diogelwch dioddefwyr 38

12 Plant 52

13 Rhoi gwybod i ddioddefwyr beth sy'n digwydd 55

14 Llysoedd trais yn y cartref arbenigol 56

15 Dedfrydu 57

16 Ymgysylltu â'r gymuned 61

17 **Cwynion** 62

18 **Casgliad** 63

Geirfa 65

Atodiadau 70

Atodiad A Enghreifftiau o'r mathau o ymddygiad sy'n gallu digwydd mewn achosion o drais yn y cartref ac a allai fod yn gyfystyr â throsedd

Atodiad B Mechnïaeth

Atodiad C Manylion cyswllt ar gyfer rhai o'r sefydliadau sy'n darparu cymorth neu wybodaeth i ddioddefwyr trais yn y cartref a phobl broffesiynol sy'n gweithio gyda dioddefwyr

1 Rhagarweiniad

1.1 Mae'r datganiad polisi hwn yn egluro sut byddwn ni, Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS), yn delio ag achosion o drais yn y cartref. Mae'n rhoi cyngor ar yr hyn y mae'r CPS yn ei wneud, sut mae achosion o drais yn y cartref yn cael eu herlyn, a'r hyn y gall dioddefwyr ei ddisgwyl gan y CPS. Mae'r ddogfen wedi'i chynllunio'n arbennig ar gyfer y rhai sy'n cefnogi dioddefwyr trais yn y cartref, boed yn broffesiynol neu'n bersonol, er y gallai fod o ddiddordeb hefyd i ddioddefwyr, tystion a'r cyhoedd.

1.2 Rydym yn ystyried trais yn y cartref yn fater hynod ddifrifol. Mae'r ffaith ei fod yn digwydd yn y cartref yn ffactor sy'n dwysáu, yn hytrach na lliniaru'r sefyllfa oherwydd bod hynny'n torri ymddiriedaeth. Bydd y dioddefwyr yn adnabod y sawl sy'n eu cam-drin ac, yn aml, yn byw neu wedi byw gyda'r camdriniwr. Yn fwy na hynny, bydd diogelwch y dioddefwyr yn aml dan fygythiad parhaus ac, yn yr achosion gwaethaf, fe allai bywyd y ddioddefwr a bywydau pobl eraill (gan gynnwys plant a phobl ifanc) fod mewn perygl. Felly mae atal trais yn y cartref a dod â throseddwyr gerbron llys yn flaenoriaeth i'r CPS.

1.3 Dyma drydydd argraffiad y datganiad polisi. Mae'n adlewyrchu newidiadau i'r gyfraith, gweithdrefnau a datblygiadau eraill a fu ers cyhoeddi'r ail argraffiad yn 2005. Mae'r newidiadau hyn yn cynnwys:

- cyflwyno cyhuddo statudol;
- hyfforddi staff y CPS ar drais yn y cartref;
- gweithredu mesurau arbennig newydd ar gyfer dioddefwyr a thystion;

- cyflwyno llysoedd trais yn y cartref arbenigol (SDVC), Cynghorwyr Trais yn y Cartref Annibynnol (IDVA), a chynadleddau asesu risg amlasiantaethol (MARAC);
- cyhoeddi'r Côd Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr Troseddau ac Addewid yr Erlynwyr; a
- chyflwyno Unedau Gofal Tystion.

1.4 Efallai na fydd rhai o'r geiriau ac ymadroddion sy'n cael eu defnyddio yn y ddogfen hon yn gyfarwydd i bawb. Felly rydym wedi rhoi rhestr o dermau yng nghefn y ddogfen hon gan ddiffinio rhai o'r geiriau a'r ymadroddion sy'n cael eu defnyddio.

1.5 Rydym yn cyhoeddi'r datganiad hwn oherwydd ein bod eisiau i'r rhai sy'n cefnogi dioddefwyr, y dioddefwyr eu hunain, eu teuluoedd, tystion, a'r cyhoedd fod yn hyderus bod y CPS yn deall bod trais yn y cartref yn fater difrifol iawn, a'i fod yn gallu peri trawma parhaus i ddioddefwyr a'u teuluoedd estynedig. Rydym am i bobl wybod mai ein nod yw erlyn achosion o drais yn y cartref yn effeithiol, ac rydym eisiau i bobl wybod yr hyn y gallant ei ddisgwyl gennym.

1.6 Mae gan bobl hawl i deimlo'n ddiogel a bod yn ddiogel yn eu perthnasau personol. Mae diogelwch y dioddefwr yn un o'r prif faterion yn byddwn yn ei ystyried wrth wneud ein penderfyniadau. Gwyddom fod trais yn y cartref yn gallu cael effaith ddinistriol, nid yn unig ar y dioddefwr ond hefyd ar deuluoedd ac yn enwedig ar blant a phobl ifanc sy'n dyst i drais ac sy'n dioddef yn uniongyrchol yn sgil y trais hwnnw. Rydym yn cydnabod hefyd, hyd yn oed pan na fydd plentyn neu berson ifanc yn gweld trais, ond yn ymwybodol ohono neu'n clywed trais, y gallai effeithio yn yr un modd ar y plentyn neu'r person ifanc hwnnw.

1.7 Felly, rhaid i'r CPS roi blaenoriaeth i rwystro trais yn y cartref a dod â throseddwyr gerbron eu gwell. Rydym yn benderfynol o chwarae ein rhan drwy erlyn achosion yn effeithiol a theg, monitro ein perfformiad, a gweithio o fewn ymdriniaeth amlasiantaethol. Rydym yn sylweddoli mai un elfen yn unig o'r ymdriniaeth hon yw dwyn achos troseddol ac weithiau bod yn rhaid defnyddio cyfraith troseddau a chyfraith sifil ar y cyd â gwasanaethau cefnogi ar gyfer dioddefwyr er mwyn mynd i'r afael â'u diogelwch. Os bydd achosion troseddol a sifil yn cyd-ddigwydd, byddwn yn gweithio i roi blaenoriaeth i ddiogelwch dioddefwyr a phlant a phobl ifanc.

1.8 Rydym yn cydnabod bod dioddefwyr trais yn y cartref yn fwy tebygol o fod yn ddioddefwyr dro ar ôl tro na dioddefwyr troseddau eraill. Rydym yn ymwybodol y gall hyn greu rhwystrau ychwanegol i ddioddefwyr.

1.9 Rydym yn sylweddoli bod dioddefwyr trais yn y cartref – yn enwedig pobl sydd wedi dioddef dros gryn amser – yn gorfod gwneud penderfyniadau anodd, rhai a fydd yn effeithio ar eu bywydau eu hunain a bywydau pobl sy'n agos atynt. Rydym yn cydnabod efallai na fydd rhai dioddefwyr yn dymuno dilyn trywydd cyfraith trosedd o gwbl, ac y bydd yn well ganddynt ddefnyddio atebion sifil a dulliau eraill o sicrhau diogelwch a chefnogaeth.

1.10 Rydym yn ymwybodol bod llawer o fythau a stereoteipiau yn gysylltiedig â thrais yn y cartref. Ni fyddwn yn caniatáu i'r rhain ddylanwadu ar ein penderfyniadau a byddwn yn mynd ati'n gadarn i herio agweddau o'r fath yn y llys.

1.11 Gwyddom fod trais yn y cartref yn debygol o ddigwydd yn amlach a bod yn fwy difrifol po hwyaf y bydd yn parhau, ac y gall arwain at farwolaeth. Oherwydd ein bod yn ymwybodol o'r risgiau hyn, weithiau fe wnawn ni barhau ag erlyniad hyd yn oed os bydd dioddefwr yn gofyn i ni beidio â gwneud hynny. Yn yr achosion hyn, byddwn yn gwneud yr ymholiadau llawnaf, trwy'r heddlu a chydag unrhyw wasanaethau cefnogi, er mwyn sicrhau bod ein penderfyniad i erlyn yn cael ei wneud yng ngoleuni'r holl wybodaeth sydd ar gael a chan gadw diogelwch y dioddefwr ac unrhyw blant yn flaenaf yn ein meddyliau.

1.12 Byddwn yn parhau i weithio a hyfforddi gyda'r heddlu, cydweithwyr eraill yn y system cyfiawnder troseddol a grwpiau cymunedol, yn lleol a chenedlaethol, i'n helpu i ddeall trais yn y cartref yn well a gwneud penderfyniadau priodol sy'n ceisio sicrhau diogelwch y dioddefwr ac unrhyw blant. Mae'r datganiad polisi hwn yn cael ei ategu gan ganllawiau manylach ar gyfer holl erlynwyr y CPS, erlynwyr cyswllt a gweithwyr achosion penodol fel eu bod yn deall y polisi yn glir a sut byddwn yn delio â'r math hwn o drosedd.

1.13 Rydym yn cydnabod, i rai unigolion, fod yna rwystrau ychwanegol sy'n golygu eu bod yn llai tebygol o roi gwybod am droseddau. Er enghraifft, mae'n bosib y bydd dioddefwyr sydd mewn perthynas â'u camdriniwr, neu a fu mewn perthynas â'u camdriniwr ers peth amser, yn eu beio eu hunain neu'n teimlo y bydd asiantaethau'n eu beio nhw, a gallent wynebu anawsterau ehangach fel tarfu ar fywydau eu plant a'u teuluoedd estynedig. Gallai hyn fod yn arbennig o wir os yw'r dioddefwr yn hen neu os mai'r camdriniwr yw'r gofalwr hefyd.

1.14 Mae'n bosib y bydd pobl o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig wedi profi hiliaeth o du'r system cyfiawnder troseddol. Efallai y byddant yn ofni na fydd neb yn eu credu, neu na fyddant yn cael eu trin yn briodol. O ganlyniad, mae'n bosib y byddant yn gyndyn o roi gwybod am droseddau neu gefnogi erlyniad. Yn benodol, gallai nifer o fenywod deimlo eu bod yn methu gadael eu camdriniwr oherwydd y gallent fod yn ddibynnol arnynt yn ariannol; eu bod yn methu siarad neu ddeall Saesneg; neu y gallai eu statws mewnfudo yn y Deyrnas Unedig fod yn aneglur. Gall credoau diwylliannol a chrefyddol hefyd atal pobl rhag rhoi gwybod am droseddau neu gefnogi erlyniad.

1.15 Rydym yn ymrwymo i fynd ati gyda holl rym y gyfraith i erlyn y rhai sy'n cael eu dal yn niweidio pobl eraill yn enw 'anrhydedd'. Ein dyletswydd yw diogelu pob un sy'n dioddef trosedd.

1.16 Nid oes yna droseddau penodol yng Nghymru a Lloegr ar gyfer 'priodas dan orfod' na 'throsedd anrhydedd'. Mae priodas dan orfod a'r hyn a elwir yn drosedd 'anrhydedd' yn dermau ymbarél i gwmpasu troseddau sydd eisoes yn dod dan ddeddfwriaeth bresennol. Gallai unigolion sy'n cyflawni troseddau o'r fath gael eu herlyn am lu o droseddau dan amryfal ddeddfwriaeth.

1.17 Mae priodas dan orfod a'r hyn a elwir yn drosedd 'anrhydedd' yn gam yn erbyn hawliau dynol a gallant fod yn ffurf ar drais yn y cartref a/neu drais rhywiol. Mae 'Yr Hyn a Elwir yn Drais ar Sail Anrhydedd' yn torri ar draws pob diwylliant, cenedl, grŵp ffydd a chymuned. Mae trais o'r fath yn mynd y tu hwnt i ffiniau cenedlaethol a rhyngwladol.

1.18 Y diffiniad rydym wedi'i fabwysiadu ar gyfer priodas dan orfod yw: "Priodas heb gydsyniad un neu'r ddau barti a ble mae gorfodaeth yn ffactor". Mae priodas dan orfod yn wahanol i briodas wedi'i threfnu. Mewn priodasau wedi'u trefnu, er y gallai teuluoedd chwarae rhan amlwg o ran dewis y partneriaid, y ddau ddarpar briod sy'n dewis a ydynt yn cydsynio â'r trefniant.

1.19 Y diffiniad rydym wedi'i fabwysiadu ar gyfer trosedd 'anrhydedd' yw: "trosedd neu ddigwyddiad sydd wedi'i gyflawni neu a allai fod wedi'i gyflawni i warchod neu amddiffyn anrhydedd y teulu a/neu'r gymuned." Nid yw'n fwriad i symlrwydd y diffiniad wneud yn fychan o lefelau'r trais, niwed a gofid a achosir gan weithredoedd o'r fath mewn unrhyw ffordd. Rydym yn ymwybodol bod trosedd anrhydedd yn gasgliad o arferion, a ddefnyddir i reoli ymddygiad o fewn teuluoedd er mwyn gwarchod credoau diwylliannol a chrefyddol canfyddedig a/neu anrhydedd. Gall trais o'r fath ddigwydd pan fydd troseddwyr dan yr argraff bod perthynas wedi codi cywilydd ar eu teulu a/neu ar eu cymuned trwy dorri eu côd anrhydedd.

1.20 Byddwn yn sicrhau, wrth ystyried achosion o drais yn y cartref, y byddwn yn ystyriol y gallai dioddefwyr fod wedi wynebu pwysau o du teuluoedd, ffrindiau a chymunedau o fewn y cyd-destun hwn.

1.21 Gallai dioddefwyr mewn perthnasau un rhyw fod wedi cael profiad o adweithiau homoffobig gan y system cyfiawnder troseddol. Efallai eu bod yn ofni hefyd y byddai'r broses yn datgelu eu rhywioldeb. Gallai dioddefwyr trawsrywiol fod wedi cael profiad o adweithiau trawsffobig.

1.22 Gallai pobl ag anableddau corfforol, plant a dioddefwyr ifanc a rhai pobl hŷn gael anhawster wrth roi gwybod i'r heddlu am droseddau a chael mynediad at wasanaethau cefnogi. Yn yr un modd, fe allen nhw a dioddefwyr ag afiechyd meddyliol neu anawsterau dysgu deimlo na fydd pobl yn eu credu os byddant yn rhoi gwybod am droseddau. Mae'r rhain yn rhwystrau ychwanegol a byddwn yn rhoi gwybod i'r bobl hyn am wasanaethau cefnogi ble bo hynny'n briodol ac ar gael.

1.23 Mae gan bob unigolyn hawl cyfartal i gael ei amddiffyn gan gyfraith trosedd a chan y CPS. Rydym yn sylweddoli bod cydraddoldeb ac amrywiaeth – a thrwy hyn rydym yn golygu trin pobl yn deg, gan barchu gwahaniaethau pobl – yn sylfaenol er mwyn cyflwyno erlyniadau teg, ac yn hanfodol os ydym yn mynd i ennyn hyder yr holl gymunedau rydym yn eu gwasanaethu. Felly, mae'r datganiad polisi hwn yn gymwys i bobl o bob cefndir a chymuned.

1.24 Byddwn yn gweithio gyda Chynghorwyr Trais yn y Cartref Annibynnol (sy'n gweithio ochr yn ochr â dioddefwyr o adeg yr argyfwng, trwy'r system cyfiawnder troseddol a thu hwnt) a nifer o sefydliadau cenedlaethol a lleol (er enghraifft, y Gwasanaeth Cefnogi Tystion), sy'n cynnig cefnogaeth i ddioddefwyr gydol yr achos. Gellir defnyddio mesurau arbennig hefyd i helpu dioddefwr neu dyst i roi tystiolaeth.

2 Beth yw trais yn y cartref?

2.1 Nid oes un trosedd statudol o'r enw trais yn y cartref. Mae "trais yn y cartref" yn derm cyffredinol sy'n disgrifio amryw o ymddygiadau sy'n rheoli a gorfodi, a ddefnyddir gan un person i gael rheolaeth dros berson arall – rhywun mewn perthynas agos neu berthynas deuluol â nhw, neu rywun a oedd yn arfer bod mewn perthynas o'r fath. Y gamdriniaeth gynyddol a chydgysylltiol, yn gorfforol, seicolegol, rhywiol, emosiynol neu ariannol, sy'n cael effaith arbennig o niweidiol ar y dioddefwr. Mae trais yn y cartref yn digwydd ledled y gymdeithas, ymysg pobl o bob ethnigrwydd, rhywioldeb, oed, anabledd, statws mewnfudo, crefydd neu gred, a chefndiroedd economaidd-gymdeithasol. Rydym yn cydnabod y gall dynion a menywod fod yn ddioddefwyr. Er mai menywod yw mwyafrif y dioddefwyr, a bod gweithredu yn erbyn trais yn y cartref yn cael ei gynnwys fel rhan o Strategaeth Trais yn erbyn Menywod y CPS, byddwn yn cymhwyso ein polisi trais yn y cartref heb wahaniaethu ym mhob achos.

2.2 Diffiniad y Llywodraeth o drais yn y cartref (y cytunwyd arno yn 2004) yw:

"unrhyw ddigwyddiad lle ceir ymddygiad bygythiol, trais neu gamdriniaeth [seicolegol, corfforol, rhywiol, ariannol neu emosiynol] rhwng oedolion sy'n bartneriaid agos neu a fu'n bartneriaid agos neu aelodau teuluol, ni waeth beth fo'u rhyw neu rywioldeb."

2.3 Oedolyn yw unrhyw berson 18 oed a throsodd ac mae aelodau teuluol yn cael eu diffinio fel mam, tad, mab, merch, brawd, chwaer, taid a nain, boed yn perthyn yn uniongyrchol, teulu-yng-nghyfraith neu'n llysdeulu. Mae testun ategol sy'n egluro'r diffiniad yn esbonio bod trais yn y cartref yn cynnwys llurgunio organau rhywiol merched, priodasau gorfodol a'r hyn a elwir yn "droseddau anrhydedd".

2.4 Roedd y diffiniad hwn yn disodli'r gwahanol ddiffiniadau a ddefnyddiwyd gan adrannau unigol y Llywodraeth ac asiantaethau, ac y mae wedi cynorthwyo i wella arferion gweithio ar y cyd a monitro.

2.5 Oherwydd bod angen ymdrin o ddifrif â thrais yn y cartref yn erbyn a chan bobl o bob oed, ac oherwydd bod materion diogelwch dioddefwyr, plant a phobl ifanc ac atebolrwydd diffynyddion mor bwysig i ni, byddwn hefyd yn gwneud defnydd o'n polisi trais yn y cartref wrth ymdrin â throseddau sy'n digwydd mewn cyd-destun domestig sy'n cynnwys dioddefwyr a chamdrinwyr beth bynnag fo'u hoedran.

2.6 Mae enghreifftiau o ymddygiad a allai fod yn gyfystyr â throsedd yn Atodiad A.

3 Swyddogaeth y CPS

3.1 Mae'r CPS yn un rhan o'r system cyfiawnder troseddol, sy'n cynnwys sefydliadau eraill fel yr heddlu, y llysoedd, cyfreithyddion yr amddiffyniad, Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr, Timau Troseddwyr Ieuenctid (YOT), y Gwasanaeth Tystion a'r Gwasanaeth Carchardai.

3.2 Rydym yn wasanaeth erlyn cyhoeddus dros Gymru a Lloegr, dan arweiniad y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus. Cawsom ein sefydlu yn 1986 er mwyn erlyn achosion a ymchwilir gan yr heddlu. Er y byddwn yn gweithio'n agos gyda'r heddlu, rydym yn annibynnol arnynt. Mae annibyniaeth yr erlynwyr o bwys cyfansoddiadol sylfaenol. Rydym yn atebol i'r Senedd trwy'r Twrnai Cyffredinol, sef uwch Swyddog Cyfraith y Goron ac sydd hefyd yn Weinidog yn y Llywodraeth.

3.3 Rydym yn sefydliad cenedlaethol sy'n cynnwys 42 Rhanbarth, gyda gwasanaeth y tu allan i oriau swyddfa o'r enw 'CPS Direct'. Mae pob Rhanbarth dan arweiniad Prif Erlynydd y Goron ac yn cyfateb i un o ranbarthau'r heddlu, ond gydag un Rhanbarth ar gyfer Llundain. Bellach mae'r Rhanbarthau wedi'u trefnu'n 14 Grŵp. Caiff pob un ei arwain gan Brif Erlynydd y Goron sy'n Gadeirydd Grŵp. Mae gan Lundain ei thîm rheoli ei hun dan arweiniad Prif Erlynydd y Goron Llundain.

3.4 Yr heddlu sy'n gyfrifol am ymchwilio i honiadau o drais yn y cartref a chasglu'r dystiolaeth. Mae eu polisïau a'u canllawiau yn gyson â rhai'r CPS. Mae canllawiau'r heddlu yn datgan: ble cafodd trosedd ei gyflawni mewn achos trais yn y cartref, fel arfer bydd arestio yn 'angenrheidiol' er

mwyn amddiffyn plentyn neu berson agored i niwed, atal y person dan amheuaeth rhag achosi niwed, a/neu ganiatáu ymchwiliad i'r trosedd yn brydlon ac effeithiol. Bydd yr heddlu yn asesu'r risg sy'n wynebu dioddefwyr trais yn y cartref a ble bydd gwasanaethau cefnogi yn bodoli, yn cyfeirio dioddefwyr atynt.

3.5 Ers 2004, buom yn gyfrifol am benderfynu (ym mhob achos heblaw'r rhai lleiaf) a ddylai person dan amheuaeth gael ei gyhuddo o gyflawni trosedd, ac, os felly, beth ddylai'r cyhuddiad(au) fod.

3.6 Ni fydd yr heddlu yn cyfeirio pob cwyn am drosedd atom ni. Fodd bynnag, pan fydd gan yr heddlu le rhesymol i amau bod y person dan amheuaeth wedi cyflawni trosedd sy'n ymwneud â thrais yn y cartref, rhaid iddynt gyfeirio'r achos hwnnw at erlynydd, a fydd yn penderfynu a ddylid cyhuddo. Felly bydd erlynwyr yn ymwneud â'r mater ar gam cynnar wrth roi cyngor ar achosion o drais yn y cartref.

3.7 Er y byddwn yn rhoi ystyriaeth i farn dioddefwyr a'n bod yn awyddus i sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi a'u cadw'n ddiogel, nid y ni yw eu cynrychiolydd cyfreithiol ac ni allwn weithredu ar eu rhan. Mae'r CPS yn gyfrifol am gychwyn erlyniadau trais yn y cartref a bydd yn erlyn achosion ar ran y wladwriaeth.

3.8 Os bydd y CPS yn penderfynu peidio â chyhuddo ar sail ffeil o dystiolaeth ysgrifenedig gan yr heddlu, neu os bydd yn penderfynu gollwng neu newid y cyhuddiad yn sylweddol, byddwn yn rhoi gwybod i'r dioddefwr drwy lythyr am y penderfyniad a'r rhesymau dros hynny. Fodd bynnag, os bydd materion yn cael eu prosesu'n gyflym iawn, mae'n

bosib na fyddwn yn gallu rhoi'r esboniad bob tro cyn i'r achos ddod i ben.

3.9 Dylid anfon llythyrau at dystion agored i niwed neu dystion sy'n cael eu dychryn, o fewn 24 awr i wneud penderfyniad ac o fewn pum niwrnod ym mhob achos arall. Rydym yn ymwybodol ei bod hi'n hynod bwysig bod dioddefwyr yn cael gwybod am ein penderfyniadau yn gyflym yn sgil goblygiadau posib y penderfyniad o ran diogelwch y dioddefwr.

3.10 Byddwn yn sicrhau hefyd bod y llythyr yn cynnwys gwybodaeth sy'n galluogi'r dioddefwr i gael mynediad at wasanaethau cefnogi priodol, fel llinellau cymorth a gwasanaethau lleol.

3.11 Wrth ysgrifennu, fe fyddwn yn sensitif i'r posibilrwydd y gallai'r diffynnydd gael mynediad at y llythyr hwn. Mewn rhai achosion, bydd ein llythyr yn cynnig cyfarfod gyda'r erlynydd hefyd, ble gellir rhoi esboniad llawnach. Ni fyddwn yn ysgrifennu llythyr ar sail penderfyniad a wneir gan yr heddlu. Fe gewch chi gopi o'n taflen 'Trais yn y Cartref - Sut byddwn yn dod i benderfyniad i erlyn' oddi wrth Gangen Cyfathrebu y CPS neu oddi ar wefan y CPS yn:

http://www.cps.gov.uk/publications/prosecution/domestic/index.html

3.12 Fel rhan o'n hymrwymiad i wella'r ffordd rydym yn erlyn achosion o drais yn y cartref, yn 2001 fe sefydlwyd rhwydwaith o gydgysylltwyr trais yn y cartref. Ym mhob Rhanbarth y CPS, gan gynnwys CPS Direct, y mae cydgysylltydd sy'n gyfrifol am drais yn y cartref. Byddant yn gweithio gydag asiantaethau eraill i weithredu ein polisi, mynd i'r afael â phroblemau, nodi a rhannu arferion da, a byddant yn mynychu cyfarfodydd amlasiantaethol. Y mae pob erlynydd, erlynydd cyswllt, a gweithwyr achosion penodol yn y CPS wedi derbyn hyfforddiant ar drais yn y cartref.

4 Y Côd ar gyfer Erlynwyr y Goron

4.1 Mae'r Côd ar gyfer Erlynwyr y Goron yn disgrifio sut byddwn yn gwneud penderfyniadau i erlyn ai peidio. Mae'r Côd yn ddogfen gyhoeddus. Byddwn yn arolygu'r achosion a gyfeirir atom gan yr heddlu yn unol â'r Prawf Côd Llawn sy'n ymddangos yn y Côd. Mae dau gam i'r Prawf Côd Llawn.

Y cam tystiolaethol

4.2 Yn gyntaf, rhaid i ni fod yn fodlon bod digon o dystiolaeth i roi gobaith realistig o euogfarn yn erbyn pob diffynnydd ar bob cyhuddiad. Mae hyn yn golygu bod rheithgor neu fainc o ynadon neu farnwr sy'n gwrando achos ar ei ben ei hun, a dderbyniodd gyfarwyddwyd priodol yn unol â'r gyfraith, yn fwy tebygol na pheidio o farnu'r diffynnydd yn euog o'r cyhuddiad honedig.

4.3 Mae'r prawf y byddwn yn ei ddefnyddio i benderfynu erlyn ai peidio yn wahanol i'r un a gymhwysir gan y llys cyn y gall farnu diffynnydd yn euog. Er mwyn cael dyfarniad euog, rhaid i ni brofi'r achos fel bod y llys yn sicr bod y diffynnydd yn euog. Mae hon yn safon prawf uchel iawn ac mae llawer o resymau pam na fyddai diffynnydd yn cael ei ddyfarnu'n euog. Ni ddylai dioddefwyr a thystion gymryd yn ganiataol bod diffynnydd wedi'i ryddfarnu oherwydd nad yw'r rheithgor wedi credu eu tystiolaeth.

4.4 Os nad yw'r achos yn pasio'r cam tystiolaethol, rhaid peidio â bwrw ymlaen, ni waeth pa mor bwysig neu ddifrifol y gallai fod.

Cam budd y cyhoedd

4.5 Os yw'r achos yn pasio'r cam tystiolaethol, rhaid i ni benderfynu a oes angen erlyn er budd y cyhoedd. Fel arfer fe fydd erlyniad yn digwydd oni bai fod: "ffactorau o ran budd y cyhoedd sy'n tueddu yn erbyn erlyn ac sy'n amlwg yn drech na'r rhai sy'n tueddu o blaid" (Côd ar gyfer Erlynwyr y Goron).

4.6 Wrth ystyried cam budd y cyhoedd, un o'r ffactorau y dylai Erlynwyr y Goron bob amser ei ystyried yw "canlyniadau y penderfyniad i erlyn ai peidio o ran y dioddefwr, ac unrhyw farn a fynegir gan y dioddefwr neu deulu'r dioddefwr" paragraff 5.12 y Côd ar gyfer Erlynwyr y Goron. Byddwn bob amser yn meddwl yn ofalus am fudd y dioddefwr wrth benderfynu ar fudd y cyhoedd. Byddwn yn erlyn achosion ar ran y cyhoedd ac nid yn unig er budd unrhyw unigolyn penodol. Gall fod yn anodd taro ar y cydbwysedd cywir yn hyn o beth. Mae barn a buddiannau'r dioddefwr yn bwysig, ond ni allant gael y gair olaf o ran erlyniad gan y CPS. Rhaid rhoi ystyriaeth i unrhyw risgiau yn y dyfodol i'r dioddefwr, eu plant neu unrhyw ddioddefwr posib arall.

Y Prawf Trothwy

4.7 Bydd Erlynwyr y Goron yn cymhwyso'r Prawf Côd Llawn ble bynnag y bo modd. Fodd bynnag, fe fydd achosion weithiau pan fydd y sawl sy'n cael ei arestio yn cael ei ystyried yn anaddas i dderbyn mechnïaeth ond na fydd yr holl dystiolaeth ar gael ar yr adeg y mae'n rhaid gwneud penderfyniad cyhuddo.

4.8 Mewn achosion o'r fath, pan fydd yr ymchwiliad yn anghyflawn, gall y CPS gymhwyso'r Prawf Trothwy. Fodd bynnag, ni ellir cymhwyso'r Prawf Trothwy oni bai fod yr holl amodau canlynol wedi'u bodloni:

- y mae tystiolaeth annigonol i gymhwyso'r Prawf Côd Llawn;
- y mae sail resymol dros gredu y bydd gwell tystiolaeth ar gael o fewn cyfnod rhesymol;
- mae difrifoldeb yr amgylchiadau yn cyfiawnhau gwneud penderfyniad cyhuddo ar unwaith; ac
- y mae sail sylweddol barhaus dros wrthod mechnïaeth.

4.9 Pan fydd yr holl amodau hyn wedi'u bodloni, gellir cymhwyso'r Prawf Trothwy a chyhuddo'r person dan amheuaeth. Rhaid i benderfyniad i gyhuddo dan y Prawf Trothwy gael ei gadw dan arolwg a rhaid cymhwyso'r Prawf Côd Llawn cyn gynted ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol.

5 A oes digon o dystiolaeth i erlyn?

5.1 Byddwn yn gweithio'n agos gyda'r heddlu i sicrhau bod yr holl dystiolaeth sydd ar gael o bob ffynhonnell wedi'i chasglu a'i dwyn i'n sylw cyn gyflymed â phosib. Bydd yr heddlu yn mynd ati i gasglu tystiolaeth yn effeithiol, er enghraifft, tapiau 999, datganiadau gan dystion eraill (er enghraifft, cymdogion, gweithwyr iechyd proffesiynol, plant ac ati), tapiau CCTV, tystiolaeth fforensig, a sylwadau'r heddlu am y lleoliad (er enghraifft dodrefn wedi'u dymchwel a niweidiau a gafwyd). Byddwn yn ystyried y dystiolaeth yn ofalus a gwneud ein penderfyniadau mor gyflym â phosib. Byddwn yn ceisio sicrhau hefyd bod achosion yn symud ymlaen trwy'r llys heb unrhyw oedi y gellid ei osgoi.

5.2 Byddwn yn annog yr heddlu i wneud defnydd llawn o'r Canllawiau ar Ymchwilio i Gam-drin yn y Cartref ACPO (2008) a'r Canllawiau ar Stelcio ac Aflonyddu ACPO (2009).

5.3 Mae'r hyn a ddywed y dioddefwr yn y llys neu ei ddatganiad i'r heddlu am yr hyn a ddigwyddodd, yn dystiolaeth. Fodd bynnag, nid dyma'r unig dystiolaeth y gellir ei defnyddio i brofi achos. Byddwn yn mynd ati i ystyried pa dystiolaeth arall allai fod ar gael. Y mae'n bosib, er enghraifft, fod ffrind, cymydog neu blentyn neu berson ifanc wedi bod gerllaw ac efallai y gallent roi tystiolaeth uniongyrchol o'r hyn a welsant neu a glywsant. Dan rai amgylchiadau, efallai y gallai ffrind, cymydog neu blentyn neu berson ifanc roi tystiolaeth am rywbeth a ddywedodd rhywun arall wrthynt (gelwir hyn yn dystiolaeth 'achlust'). Gallai'r wybodaeth uniongyrchol neu

anuniongyrchol hon roi gwybodaeth gefndir bwysig a fydd yn galluogi'r erlynydd i roi'r trosedd yn ei gyd-destun.

5.4 Mewn achosion eraill, efallai y bydd tystiolaeth feddygol (er enghraifft, gan y Meddyg lleol a nodiadau adran Damweiniau ac Achosion Brys neu ddatganiad Meddyg Ysbyty) neu ffotograffau o niweidiau'r dioddefwr y gellir eu defnyddio fel tystiolaeth. Dan rai amgylchiadau cyfyngedig, mae'n bosib y byddwn yn gallu defnyddio tystiolaeth o gymeriad gwael blaenorol y diffynnydd (er enghraifft, euogfarnau neu rybuddiadau) i'n helpu i brofi achos.

5.5 Yn aml, bydd trais yn y cartref yn digwydd yn breifat ac, ar adegau, mae'n bosib mai'r dioddefydd fydd yr unig dyst. Oni bai fod y diffynnydd yn pledio'n euog neu fod yna dystiolaeth gynhaliol gref, fel arfer bydd angen i'r dioddefwr roi tystiolaeth yn y llys. Rydym yn cydnabod y bydd hyn yn anodd iawn i lawer o ddioddefwyr trais yn y cartref – weithiau oherwydd eu bod yn pryderu am eu diogelwch eu hunain neu am ddiogelwch eu plant. Mae'n bosib hefyd y gallai'r dioddefwr fod ag ymlyniad emosiynol neu'n teimlo teyrngarwch tuag at y diffynnydd. Gallai fod arnynt angen cefnogaeth ymarferol ac emosiynol a gwasanaethau cefnogi arbenigol ym maes trais yn y cartref.

5.6 Mewn rhai rhanbarthau, mae Cynghorwyr Trais yn y Cartref Annibynnol (IDVA) a gwasanaethau trais yn y cartref arbenigol eraill ar gael i ddarparu'r math hwn o gefnogaeth. Mae cymorth emosiynol ac ymarferol i bob un a ddioddefodd drosedd ar gael hefyd gan Gymorth i Ddioddefwyr a'r Gwasanaeth i Dystion. Mae manylion cyswllt yr asiantaethau cefnogi hyn yn Atodiad C. Mewn rhai achosion, gall y CPS wneud cais i'r llys i ganiatáu i ddioddefwyr ddefnyddio mesurau arbennig i'w helpu i roi eu tystiolaeth orau.

5.7 Fe wyddom na fydd rhai cwynion o drais yn y cartref yn cael eu gwneud ar unwaith, oherwydd ofn dial, dychryn neu nifer o ffactorau eraill. Yma, eto, bydd gwasanaethau arbenigol sy'n cefnogi dioddefwyr trais yn y cartref yn gallu cynnig cymorth a chyngor i ddioddefwyr sy'n ansicr beth i'w wneud.

5.8 Byddwn yn erlyn achosion os oes digon o dystiolaeth ac os bydd erlyn er budd y cyhoedd.

Beth sy'n digwydd os bydd y dioddefwr yn dewis peidio â chefnogi'r erlyniad neu'n penderfynu nad yw'n dymuno rhoi tystiolaeth bellach?

5.9 Weithiau bydd dioddefwyr yn gofyn i'r heddlu beidio â bwrw ymlaen â'r achos ac yn dweud nad ydynt bellach yn dymuno rhoi tystiolaeth. Gallai fod nifer o esboniadau dros hyn. Nid yw hyn yn golygu y bydd yr achos yn cael ei atal yn awtomatig.

5.10 Pan fydd hyn yn digwydd, mae'n rhaid i ni ddarganfod pam y mae'r dioddefwr wedi gofyn am atal yr achos, cyn y gallwn benderfynu beth i'w wneud. Gallai hyn olygu gwneud cais i'r llys am amser i ymchwilio i'r ffeithiau a phenderfynu ar y peth gorau i'w wneud, gan arwain at oedi yn yr achos. Y brif ystyriaeth wrth wneud ein penderfyniad fydd nodi'r risgiau, asesu a rheoli'r dioddefwr, plant, pobl ifanc, neu unrhyw berson arall a allai fod yn agored i niwed.

5.11 Fe wnawn ni gymryd y camau canlynol:

- fe wnawn ni sicrhau bod erlynydd â phrofiad o faterion trais yn y cartref yn arolygu'r achos;
- os daeth y wybodaeth am benderfyniad y dioddefwr gan y diffynnydd, byddwn yn gofyn i'r heddlu wneud rhagor o

ymholiadau (yn enwedig gan y gallai ddatgelu bod y diffynnydd wedi torri ei fechnïaeth);

- os bydd y dioddefwr yn cadarnhau bod y wybodaeth yn wir, byddwn yn gofyn i'r heddlu gymryd datganiad ysgrifenedig gan y dioddefwr. Dylai'r datganiad hwn egluro'r rhesymau dros dynnu'r gefnogaeth yn ôl, dylai gadarnhau a oedd y datganiad gwreiddiol yn wir, cadarnhau a roddwyd pwysau ar y dioddefwr i dynnu'r gefnogaeth yn ôl, a darparu unrhyw wybodaeth berthnasol arall;
- byddwn yn gofyn i'r heddlu am eu barn (ac ymgynghori â'r cynghorwyr IDVA, os ydynt ar gael, am y wybodaeth ddiweddaraf) ynglŷn â'r dystiolaeth yn yr achos a sut byddai'r dioddefwr yn ymateb, yn eu barn nhw, petai galw arno ef neu hi i fynychu'r llys yn groes i'w ddymuniad; a
- byddwn yn gofyn i'r heddlu sicrhau bod yr asesiad risg llawn o ddiogelwch y dioddefwr, unrhyw blant ac unrhyw berson arall wedi'i ddiweddaru. Dylai'r asesiad risg gynnwys manylion o ba gefnogaeth sydd ar gael i'r dioddefwr, yr hyn a gynigiwyd, a'r hyn a dderbyniodd y dioddefwr.

5.12 Os bydd y dioddefwr yn cadarnhau bod y gŵyn yn wir ond yn dal eisiau tynnu'r gŵyn honno'n ôl, fe wnawn ni ystyried yn gyntaf a oes modd parhau i erlyn heb dystiolaeth y dioddefwr (y cam tystiolaethol) ac yna, os oes modd, a ddylem ni barhau â'r achos os nad yw'r dioddefwr yn cefnogi'r erlyniad (cam budd y cyhoedd).

5.13 Os bydd datganiad y dioddefwr ar ôl tynnu'r gŵyn yn ôl yn wahanol i'r datganiad blaenorol, bydd yr heddlu yn gofyn i'r dioddefwr egluro'r newid ac, os bydd angen, yn ymchwilio i'r cefndir.

5.14 Bydd yr erlynydd eisiau gwybod y rhesymau pam nad yw'r dioddefwr yn dymuno rhoi tystiolaeth erbyn hyn. Efallai fod hyn oherwydd bod y dioddefwr wedi cymodi â'r diffynnydd neu fod y dioddefwr yn poeni am fod yn gyfrifol am y posibilrwydd y gallai'r diffynnydd gael cofnod troseddol. Efallai fod dioddefwyr yn teimlo embaras neu'n ofni na fydd neb yn eu credu. Efallai fod y dioddefwr yn byw mewn lle ble bydd yn teimlo'n ynysig neu'n arbennig o agored i niwed, ble gallai cefnogi'r erlyniad olygu bod y dioddefwr yn wynebu rhagor o risg o niwed. Efallai hefyd fod y dioddefwr yn lesbiad, yn hoyw neu'n ddeurywiol ac yn ofni y gallai hynny gael ei ddatgelu mewn achos o'r fath. Mewn achosion o'r fath, rhaid i'r erlynydd roi ystyriaeth i unrhyw fesurau arbennig neu gefnogaeth arall sydd ar gael i'r dioddefwr a allai ei helpu, yn rhannol o leiaf, i oresgyn ei bryderon ef neu hi.

5.15 Os byddwn yn amau bod y dioddefwr wedi dod dan bwysau neu wedi'i ddychryn i dynnu'r gŵyn yn ôl, byddwn yn gofyn i'r heddlu ymchwilio ymhellach. Gallai'r ymchwiliad ddadlennu troseddau newydd, er enghraifft, aflonyddu neu ddychryn tyst, neu gall ddadlennu fod amodau'r fechnïaeth wedi'u torri. Os bydd angen, byddwn yn gofyn i'r llys oedi unrhyw wrandawiad er mwyn gallu cynnal ymchwiliad trylwyr cyn i ni benderfynu ynghylch dyfodol yr achos. Os yw'r rheswm dros ddioddefwr neu dyst yn tynnu cyhuddiad yn ôl yn seiliedig ar ofn neu frawychu, bydd yr erlynydd yn ystyried y dystiolaeth a phenderfynu a ddylid dwyn cyhuddiadau pellach.

5.16 Byddwn yn edrych ar y dewisiadau hyn yn llawn, cyn penderfynu a fyddwn yn parhau i erlyn ai peidio. Bydd diogelwch y dioddefwr neu unrhyw un arall a allai fod yn

agored i niwed, yn ystyriaeth bwysig wrth i ni ddod i benderfyniad. Os bydd dioddefwr yn tynnu cyhuddiad yn ôl, nid yw'n golygu na fydd bellach yn gallu ffonio'r heddlu. Mae gan y dioddefwr hawl o hyd i gael ei ddiogelu yn y dyfodol. Rydym yn ymwybodol mewn rhai achosion y gall teulu'r dioddefwr, neu ffrindiau neu'r gymuned roi pwysau arno ef neu hi, a byddwn yn sicrhau bod y posibilrwydd hwn yn cael ei ystyried wrth wneud penderfyniadau.

Beth sy'n digwydd os penderfynir parhau i erlyn yn groes i ddymuniadau'r dioddefwr?

5.17 Yn gyffredinol, po fwyaf difrifol yw'r trosedd (oherwydd, er enghraifft, lle'r oedd plant neu bobl ifanc yn bresennol, neu ble bu cryn drais, neu ble mae bygythiad gwirioneddol a pharhaus i'r dioddefwr neu eraill) y mwyaf tebygol ydym ni o erlyn er budd y cyhoedd, hyd yn oed os bydd y dioddefwr yn dweud nad yw'n dymuno i ni wneud hynny.

5.18 Mewn achosion ble mae gennym ddigon o dystiolaeth arall, efallai y byddwn yn penderfynu bwrw ymlaen heb ddibynnu ar dystiolaeth y dioddefwr o gwbl.

5.19 Os byddwn yn teimlo y dylai'r achos barhau ac y byddai angen dibynnu ar dystiolaeth dioddefwr i brofi'r achos, rhaid i ni benderfynu:

- a ddylem ni wneud cais i'r llys i ddefnyddio datganiad y dioddefwr yn dystiolaeth heb i'r dioddefwr orfod rhoi tystiolaeth yn y llys;
- a allwn ni barhau i erlyn trwy gynorthwyo'r dioddefwr i fynychu'r llys trwy ddefnyddio mesurau arbennig; neu

- a ddylem ni fynnu bod y dioddefwr yn rhoi tystiolaeth yn bersonol yn y llys yn erbyn ei ddymuniad ef neu hi.

5.20 Dan amodau cyfyngedig iawn, mae'r gyfraith yn caniatáu i ni ddefnyddio datganiad y dioddefwr yn y llys heb alw'r dioddefwr i roi tystiolaeth ar lafar (er enghraifft, ble mae'r dioddefwr yn ofnus neu na ellir dod o hyd iddo ef neu hi). Mater i'r llys ei benderfynu yw hyn, ac ni all y llys benderfynu caniatáu i hyn ddigwydd oni bai fod gwneud hynny er budd y cyhoedd. Os mai'r dioddefwr yw'r unig dyst i'r trosedd, fe all fod yn anodd iawn bodloni'r llys y gall y treial fod yn un teg pan na fydd cyfle i'r amddiffyniad groesholi'r unig dyst yn eu herbyn.

5.21 Mewn rhai achosion, byddwn yn gallu gwneud cais i'r llys hefyd am fesurau arbennig i gynorthwyo'r dioddefwr i roi ei dystiolaeth orau.

5.22 Mae gwybodaeth gefndir yn hanfodol er mwyn helpu erlynydd i wneud y penderfyniad cywir ynghylch sut i fwrw ymlaen ag achos ble bydd y dioddefwr wedi tynnu ei gefnogaeth i'r erlyniad yn ôl. Bydd yr heddlu yn rhoi'r wybodaeth hon i erlynwyr i'w helpu i wneud y penderfyniad hwnnw.

5.23 Dan y ddeddfwriaeth bresennol, gallwn fynnu bod gwŷr, gwragedd neu bartneriaid sifil yn rhoi tystiolaeth am ymosodiad neu fygwth niwed gan eu priod. Gallwn alw ar bartneriaid di-briod, gan gynnwys partneriaid o'r un rhyw, neu aelodau o'r teulu i roi tystiolaeth am unrhyw drosedd yn y llys yn groes i'w dymuniad hefyd.

5.24 Mewn achosion lle bydd angen galw dioddefwyr i'r llys yn groes i'w dymuniad, erlynydd profiadol fydd yn gwneud y penderfyniad hwnnw a hynny ar ôl ymgynghori â'r heddlu yn unig ac wedi ystyried diogelwch y dioddefwr ac unrhyw blentyn neu berson agored i niwed. Byddwn hefyd yn ystyried unrhyw ganlyniadau pellach neu anfwriadol (er enghraifft, fictimeiddio dro ar ôl tro) a allai godi o ganlyniad i barhau â'r achos, boed y rheiny'n gysylltiedig â rhyw y dioddefwr neu'r diffynnydd neu eu rhywioldeb, ethnigrwydd, statws mewnfudo, oed, hunaniaeth o ran rhywedd, crefydd neu gred, anabledd, neu hunaniaeth arall.

5.25 Y mae rheolau cyfreithiol llym ynghylch tystiolaeth, sy'n pennu a ellir defnyddio euogfarnau blaenorol y person dan amheuaeth yn y llys neu dystiolaeth arall o gymeriad gwael. Rhaid i ni ystyried y rheolau hyn wrth benderfynu a allwn barhau ag achos.

5.26 Hyd yn oed os na ellir defnyddio y math hwn o dystiolaeth i brofi bod y diffynnydd yn euog, gall fod yn wybodaeth gefndir bwysig a fydd yn galluogi'r erlynydd i roi'r trosedd yn ei gyd-destun. Er enghraifft, gallai'r dioddefwr fod wedi dioddef ymosodiadau dro ar ôl tro a gallai fod yn agored i niwed os na fydd yr erlyniad yn parhau.

5.27 Mae'n bosib y bydd yn rhaid i rywfaint o dystiolaeth ddod o ffynonellau eraill, fel asiantaethau gwirfoddol. Rhaid i'r heddlu gasglu'r holl wybodaeth hon a'i rhoi i'r erlynydd.

6 A yw erlyn er budd y cyhoedd?

6.1 **Fe fyddwn ni bob amser yn meddwl yn ofalus iawn am fuddiannau a diogelwch y dioddefwr wrth benderfynu beth yw budd y cyhoedd. Ond fe fyddwn yn erlyn achosion ar ran y cyhoedd yn gyffredinol ac nid er budd unrhyw unigolyn penodol.**

6.2 Mae diogelwch plant a phobl ifanc yn hollbwysig. Os oes unrhyw blant yn byw mewn cartref lle mae rhywun yn cael ei gam-drin, fe fyddwn eisiau gwybod am effaith hynny arnyn nhw. Byddwn yn gofyn i'r heddlu a yw'r plentyn neu'r person ifanc wedi rhannu unrhyw bryderon gydag asiantaethau eraill, neu a yw asiantaethau eraill wedi rhannu pryderon, yn enwedig os bydd achos teulu yn cael ei gynnal.

6.3 Os bydd y dioddefwr yn dewis peidio â chefnogi'r erlyniad ond fod gennym ddigon o dystiolaeth i fwrw ymlaen, rhaid i ni benderfynu a ydym am erlyn ai peidio. Bydd diogelwch y dioddefwr ac unrhyw blant a pherson ifanc yn ffactor allweddol i ni ei ystyried yn ystod y cam hwn. Dyma enghreifftiau o bethau sy'n ein helpu i benderfynu a yw erlyn er budd y cyhoedd:

- pa mor ddifrifol yw'r trosedd;
- niweidiau'r dioddefwr – boed gorfforol neu seicolegol;
- a wnaeth y diffynnydd ddefnyddio arf;
- a yw'r diffynnydd wedi gwneud unrhyw fygythiadau, cyn neu ar ôl yr ymosodiad;
- a oedd y diffynnydd wedi cynllunio'r ymosodiad;
- a oes unrhyw blant yn byw yn y cartref;

- a oedd y trosedd wedi'i gyflawni ym mhresenoldeb plentyn, neu'n agos at blentyn neu berson ifanc;
- y tebygolrwydd y bydd y diffynnydd yn troseddu eto;
- torri unrhyw orchmynion y llys;
- y bygythiad parhaus i iechyd a diogelwch y dioddefwr neu unrhyw un arall sy'n rhan o'r sefyllfa, neu a allai ddod yn rhan ohoni;
- hanes y berthynas, yn enwedig os bu unrhyw drais yn y gorffennol;
- hanes troseddol y diffynnydd, yn enwedig unrhyw drais blaenorol; ac
- unrhyw ffactorau eraill sy'n berthnasol i fudd y cyhoedd.

6.4 Mewn achosion o drais yn y cartref, os bydd yr achos yn pasio'r prawf tystiolaeth a'r dioddefwr yn barod i roi tystiolaeth, byddwn yn erlyn bron bob tro, hyd yn oed, er enghraifft, os oedd y niwed yn fach neu'r ddwy ochr wedi cymodi. Mae canllawiau'r heddlu yn datgan mai anaml y bydd rhybuddiadau gan swyddogion yr heddlu yn briodol mewn achosion o drais yn y cartref.

6.5 Byddwn yn gofyn i'r heddlu roi gwybodaeth am amgylchiadau'r teulu ac effaith debygol yr erlyn ar y dioddefwr, plant ac unrhyw berson ifanc. Efallai y gallai gwasanaethau cymdeithasol, asiantaethau tai, cynghorwyr IDVA neu asiantaethau arbenigol sy'n cefnogi dioddefwyr trais yn y cartref roi cymorth trwy roi'r math yma o wybodaeth i'r heddlu, os ydynt yn ymwneud â'r achos neu wedi bod yn y gorffennol.

7 Mechnïaeth

7.1 Unwaith y bydd diffynnydd yn cael ei gyhuddo o gyflawni trosedd, bydd yr heddlu yn penderfynu a fyddant yn rhyddhau'r unigolyn dan sylw ar fechnïaeth neu'n ei gadw ef neu hi yn y ddalfa. Os cânt eu rhyddhau ar fechnïaeth, byddant yn cael eu mechnïo i fynychu gwrandawiad llys o fewn cyfnod byr. Os bydd yr heddlu yn eu cadw yn y ddalfa, fe gânt eu dwyn gerbron y llys nesaf sydd ar gael am wrandawiad mechnïaeth.

7.2 Yn y gwrandawiad mechnïaeth, bydd yr ynadon yn penderfynu a yw mechnïaeth yn briodol ar ôl clywed cyflwyniadau gan yr erlyniad a'r amddiffyniad. Mae hawl gan ddiffynnydd i gael mechnïaeth. Ni all y llys wrthod mechnïaeth oni bai ei fod yn fodlon y byddai'r diffynnydd yn methu ildio i gadwraeth, y byddai'n cyflawni trosedd tra bydd ar fechnïaeth, neu'n ymyrryd â thystion neu fynd ati fel arall i rwystro cwrs cyfiawnder. Gellir gwrthod rhoi mechnïaeth hefyd os cafodd y trosedd ei gyflawni tra oedd y diffynnydd eisoes ar fechnïaeth am drosedd difrifol arall, neu er diogelwch y diffynnydd ei hun. Y mae eithriad i'r hawl i fechnïaeth ar gyfer rhai troseddwyr ailadroddus difrifol, gan gynnwys y rhai a gafodd eu heuogfarnu o dreisio yn y gorffennol. Yn yr achosion hynny, ni all y llys ond caniatáu mechnïaeth dan amgylchiadau eithriadol.

7.3 Yn y gwrandawiad mechnïaeth, bydd yr heddlu yn rhoi digon o wybodaeth i'r erlynwyr fel y gallant wneud penderfyniad ynghylch a ddylid gwrthwynebu mechnïaeth i'r diffynnydd (er enghraifft, gwybodaeth sy'n disgrifio ofnau dioddefwr neu dyst ynghylch aflonyddu neu droseddu dro ar

ôl tro). Dylai'r dioddefwr roi unrhyw wybodaeth berthnasol a allai effeithio ar gwestiwn mechnïaeth i'r heddlu, er mwyn i'r erlynydd ystyried y wybodaeth honno'n fuan.

7.4 Os bu perthynas rhwng y dioddefwr a'r diffynnydd, bydd yr heddlu yn rhoi cymaint o wybodaeth gefndir i ni â phosib. Gallai hyn gynnwys gwybodaeth fel nifer ac oedrannau unrhyw blant a pha mor agos yw cyfeiriadau perthnasau'r diffynnydd at gyfeiriad y dioddefwr. Bydd hefyd yn cynnwys manylion unrhyw orchmynion sifil sydd mewn grym ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall.

7.5 Rydym yn arbennig o ymwybodol o bwysigrwydd y wybodaeth hon mewn achosion ble mae yna blant neu bobl ifanc.

7.6 Bydd yr erlynydd yn rhoi ystyriaeth i Ddatganiad Personol y Dioddefwr, os bydd y dioddefwr wedi penderfynu gwneud datganiad, wrth wneud penderfyniadau ynghylch gwrthwynebu mechnïaeth ai peidio, a pha amodau y gellid cytuno arnynt. Yn Natganiad Personol y Dioddefwr, gall y dioddefwr ddewis mynegi unrhyw bryderon am ganiatáu mechnïaeth i'r diffynnydd.

7.7 Efallai y byddwn yn penderfynu gofyn am i'r diffynnydd gael ei gadw yn y ddalfa er mwyn amddiffyn y dioddefwr neu dystion rhag perygl, bygythiadau neu bwysau a allai rwystro cwrs cyfiawnder.

7.8 Mae'n ofynnol bod ynadon yn rhoi rhesymau yn y llys os byddant yn caniatáu mechnïaeth i ddiffynnydd. Os na fyddant yn rhoi rhesymau, byddwn yn gofyn iddynt ddatgan eu rhesymau.

7.9 Bellach nid yw'n bosib gwrthod mechnïaeth mewn rhai troseddau ynadol digarchar.

7.10 Mewn achosion sy'n cynnwys troseddau carcharol, pan fydd yr erlynydd yn gwrthwynebu mechnïaeth, ond yr ynadon yn caniatáu mechnïaeth, bydd yr erlynydd yn penderfynu a fydd yn apelio yn erbyn y penderfyniad hwnnw ai peidio. Os bydd apêl, bydd y diffynnydd yn cael ei gadw yn y ddalfa hyd nes y bydd barnwr yn Llys y Goron yn gwrando'r apêl. Ni ellir gwneud apêl o'r fath ar gyfer troseddau digarchar.

7.11 Er mwyn diogelu dioddefwyr, plant a thystion eraill rhag perygl, bygythiadau, pwysau neu weithredoedd eraill gan y diffynnydd a allai rwystro cwrs cyfiawnder, gallwn ofyn i'r llys osod amodau'r fechnïaeth.

7.12 Ymhlith yr amodau y gall y llys eu gosod y mae gofyniad i beidio â chysylltu ag unrhyw un a enwir neu gadw draw oddi wrth rai ardaloedd. Mae enghreifftiau o amodau mechnïaeth cyffredin a'r hyn fydd yn digwydd os torrir amodau'r fechnïaeth yn Atodiad B. Byddwn yn sicrhau bod yr amodau hyn yn rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch y dioddefwr ac unrhyw blant. Byddwn hefyd yn ceisio sicrhau bod y dioddefwr yn cael cymaint o ryddid i symud â phosib trwy reoli gallu'r diffynnydd i fynd at y dioddefwr neu ei fygwth ef neu hi, er enghraifft yn y cartref, yn y gwaith neu ar y ffordd i'r ysgol.

7.13 Byddwn yn gweithio'n agos gyda'r heddlu i gael barn dioddefwyr a thystion am amodau'r fechnïaeth ac unrhyw amrywiadau iddynt a gynigir. Byddwn yn ceisio gwneud hyn cyn i benderfyniad gael ei wneud mewn perthynas ag unrhyw amrywiad a gynigir i amodau mechnïaeth y diffynnydd. Bydd y dioddefwr neu'r tyst yn cael gwybod gan

yr heddlu neu'r Uned Gofal Tystion am unrhyw newid yn amodau'r fechnïaeth neu statws dal y sawl a gyhuddwyd (neu mae'n bosib y bydd y wybodaeth hon yn cyrraedd y dioddefwr trwy gyfrwng gwasanaeth cefnogi y bu'r dioddefwr mewn cyswllt ag ef). Er diogelwch, dylid gwneud hyn cyn gynted â phosib a byddwn yn sicrhau bod y cyswllt yn digwydd trwy'r dull a ddewiswyd gan y dioddefwr.

7.14 Os bydd y diffynnydd yn torri amodau'r fechnïaeth, dylai'r heddlu ei arestio a gall y llys ei remandio yn y ddalfa. Mae'n bosib y bydd troseddau newydd wedi'u cyflawni yn ogystal â thorri'r amodau a bydd unrhyw drosedd newydd yn cael ei ystyried er mwyn penderfynu a ddylid ei erlyn.

7.15 Os bydd amod i beidio â chysylltu â'r dioddefwr, nid yw'n gwneud gwahaniaeth os yw'r dioddefwr wedi cytuno â'r cysylltiad neu os mai'r dioddefwr a gysylltodd yn y lle cyntaf. Y diffynnydd sy'n destun amodau'r fechnïaeth. Mae'r diffynnydd, ac nid y dioddefwr, yn gyfrifol am gydymffurfio ag unrhyw amodau a osodir gan yr heddlu neu'r llys hyd nes y caiff ef neu hi ei ryddhau o'r amodau hynny gan yr heddlu neu'r llys (gweler Atodiad B)

8 Penderfynu ar y cyhuddiadau a derbyn pledion

8.1 Dylai'r cyhuddiadau mewn achosion o drais yn y cartref adlewyrchu difrifoldeb yr hyn a ddigwyddodd, unrhyw elfen o ragfwriad neu ddyfalbarhad yn ymddygiad y diffynnydd, i ba raddau y gellir profi bwriad y diffynnydd a difrifoldeb unrhyw niwed a gafodd y dioddefwr. Rhaid i'r cyhuddiadau ein helpu i gyflwyno'r achos yn glir a syml a rhaid iddynt roi grym i'r llys osod dedfryd addas.

8.2 Mae'r CPS a'r heddlu wedi cytuno ar yr hyn a elwir yn "safonau cyhuddo" ar gyfer rhai mathau o droseddau gan gynnwys ymosodiadau. Canllawiau yw'r rhain sy'n ein helpu i wneud penderfyniadau cyson ynghylch y cyhuddiadau cywir. Byddwn yn eu defnyddio wrth ystyried pob achos gan gynnwys trais yn y cartref. Mae'r safon gyhuddo ar gyfer troseddau corfforol i'w chael ar wefan y CPS yn:

http://www.cps.gov.uk/legal/1o0/offences_against_the_person/

Mae copïau i'w cael hefyd gan Gangen Cyfathrebu y CPS.

8.3 Mewn rhai achosion gallwn ystyried derbyn ple euog gan y diffynnydd ar gyfer cyhuddiad gwahanol. Gallai hyn godi, er enghraifft, oherwydd bod tystiolaeth newydd yn dod i'r amlwg. Gallai diffynnydd hefyd bledio'n euog i rai o'r cyhuddiadau, ond nid y cyhuddiadau i gyd yn ei erbyn ef neu hi.

8.4 Wrth ystyried derbyn ple ai peidio dan yr amgylchiadau hyn, ac, yn unol â'n hymrwymiadau dan 'Canllawiau'r Twrnai Cyffredinol ar Dderbyn Pledion a Rôl yr Erlynydd yn yr Ymarferiad Dedfrydu 2005' (diwygiwyd 2007), byddwn yn trafod y sefyllfa gyda'r dioddefwr neu deulu'r dioddefwr ble bynnag y bo modd. Byddwn yn egluro'r sefyllfa a rhoi ystyriaeth i'w barn er mwyn ein helpu i wneud y penderfyniad cywir. Byddwn yn rhoi gwybod iddynt beth sy'n digwydd, un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol trwy'r heddlu, gan egluro ein penderfyniadau iddynt.

8.5 Byddwn bob amser yn rhoi sylw priodol i fuddiannau'r dioddefwr (un ai drwy ymgynghori â'r dioddefwr yn y llys neu drwy wybodaeth gan yr heddlu a datganiad y dioddefwr), ac ni fyddwn yn derbyn ple euog sy'n cael ei gyflwyno ar sail set o ffeithiau camarweiniol neu gelwyddog.

9 Osgoi oedi

9.1 Po fwyaf yr oedi, hwyaf y bydd y dioddefwr mewn perygl a than bwysau. Mewn achosion o drais yn y cartref byddwn yn sicrhau na fyddwn yn cyfrannu at oedi gormodol wrth ddelio ag achos. Fe wnawn ein gorau glas i sicrhau bod y dioddefwr yn cael gwybod am y rhesymau dros unrhyw oedi yn yr achos, naill ai gennym ni neu gan yr heddlu neu'r asiantaethau cefnogi.

9.2 Byddwn yn gweithio'n barhaus gyda'n partneriaid cyfiawnder troseddol i fwrw ymlaen ag achosion yn fwy effeithlon. Ar y cyd â'r heddlu, rydym wedi sefydlu Unedau Gofal Tystion i wella'r gwasanaeth y mae dioddefwyr a thystion yn ei gael gennym. O ganlyniad, mae treialon yn fwy tebygol o fynd ymlaen ar y dyddiad cyntaf a bennir gan y llys heb fod angen gohirio.

10 Achosion sifil

10.1 Mae anghenion dioddefwyr unigol yn amrywio, ac er mwyn sicrhau eu diogelwch, mae'n bosib defnyddio cyfraith trosedd a chyfraith sifil. Er nad oes gan y CPS swyddogaeth mewn achosion sifil, mae ein canllawiau yn cynghori erlynwyr i fod yn ymwybodol o'r dewisiadau sydd ar gael i ddioddefwyr ac asiantaethau eraill dan drefniadau sifil er mwyn gallu diogelu a chefnogi dioddefwyr mewn ffordd gynhwysfawr. Pan fyddwn yn ymwybodol bod achosion troseddol a sifil yn digwydd ar yr un pryd, byddwn yn sicrhau bod y llysoedd yn cael y wybodaeth briodol i'w galluogi i wneud gorchmynion sy'n rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch dioddefwyr, plant a phobl ifanc.

10.2 Un ateb sifil posib yw gorchymyn rhag molestu, gyda'r bwriad o atal person rhag cyflawni neu barhau i gyflawni rhai gweithredoedd. Mae torri gorchymyn rhag molestu heb esgus rhesymol wedi bod yn drosedd ers 1 Gorffennaf 2007. Mae'r newid hwn yn y gyfraith wedi rhoi dau ddewis i'r dioddefwr pan fydd gorchymyn rhag molestu yn cael ei dorri: gallant alw'r heddlu, a fydd yn delio â thorri'r gorchymyn fel trosedd; neu gallant ddewis dychwelyd at y llys sifil a wnaeth y gorchymyn rhag molestu er mwyn iddynt ddelio â hyn fel dirmyg llys.

10.3 Mae'r CPS yn gyfrifol am erlyn torri gorchmynion o'r fath pan fydd y dioddefwr yn galw'r heddlu ac yn dewis delio â'r torri gorchymyn yn y llysoedd troseddol. Ni fydd y CPS yn gallu erlyn torri'r gorchymyn os deliwyd â hynny eisoes fel dirmyg llys. Fodd bynnag, os bydd y CPS yn penderfynu peidio ag erlyn, neu os bydd y troseddwr yn cael ei erlyn a'i gael yn ddieuog, gall y dioddefwr ofyn o hyd i lys sifil ddelio â thorri'r gorchymyn fel dirmyg llys. Mae'n parhau'n bosib i'r CPS erlyn os yw'r dioddefwr yn gweithredu fel arall yn y llysoedd sifil.

11 Cefnogaeth a diogelwch dioddefwyr

11.1 Pan fydd yn rhaid i ddioddefwyr a thystion fynychu'r llys i roi tystiolaeth, rydym yn gwybod y gallant fod yn bryderus ac efallai y bydd angen cefnogaeth ymarferol ac emosiynol arnynt. Mae sicrhau diogelwch dioddefwyr trais yn y cartref o bwys mawr i ni hefyd.

11.2 Mewn llawer o ardaloedd, mae cefnogaeth gyffredinol ac arbenigol (gan gynnwys cefnogaeth arbenigol i gymunedau lleiafrifol) ar gael i ddioddefwyr, a gall hyn barhau trwy gydol yr erlyniad a thu hwnt. Gall cefnogaeth fod ar gael gan yr heddlu, cynghorwyr IDVA a sefydliadau cefnogi eraill. Gyda mentrau fel cyfarfodydd mesurau arbennig rhwng y CPS a dioddefwyr trais yn y cartref, a chreu Unedau Gofal Tystion un pwrpas wedi'u staffio gan y CPS a phersonél yr heddlu, y gobaith yw cynyddu hyder dioddefwyr o fewn y system cyfiawnder troseddol a'u helpu i roi eu tystiolaeth orau.

11.3 Rydym yn deall y bydd profiadau dioddefwyr o drais yn y cartref a'r system cyfiawnder troseddol yn wahanol, ac y bydd ganddynt anghenion a gofynion diogelwch unigol, o bosib o ganlyniad i'w hethnigrwydd, rhyw, hunaniaeth o ran rhywedd, oed, anabledd, statws mewnfudo, rhywioldeb, crefydd neu gred, cefndir economaidd-gymdeithasol neu hunaniaeth arall. Rydym yn cydnabod bod y profiadau gwahanol hyn yn galw am ymatebion penodol gan y CPS, ac felly byddwn yn gwneud ein gorau glas i sicrhau bod cefnogaeth i ddioddefwyr yn cael ei theilwra i weddu i'w

hanghenion (er enghraifft, trwy gyflogi cyfieithwyr) a bod cyfeirio priodol yn digwydd at ffynonellau cefnogaeth eraill.

Gwasanaethau trais yn y cartref arbenigol a Chynghorwyr Trais yn y Cartref Annibynnol

11.4 Mewn rhai rhannau o Gymru a Lloegr, mae cynghorwyr IDVA wedi dechrau gweithio gyda dioddefwyr risg uchel. Bydd yr arbenigwyr hyn, a gafodd hyfforddiant proffesiynol, yn gweithio ochr yn ochr â dioddefwyr o adeg yr argyfwng, megis y cyswllt cychwynnol gyda'r gwasanaethau brys, trwy gydol y broses gyfreithiol a thu hwnt. Y maent yn annibynnol ar y system cyfiawnder troseddol. Bydd cyswllt rhwng y cynghorwyr a gwasanaethau hanfodol, megis sefydliadau dioddefwyr a thystion, gwasanaethau cynghori a iechyd, gan sicrhau bod diogelwch y dioddefwr yn cael ei gydgysylltu ar draws pob asiantaeth.

11.5 Hefyd, mae yna sefydliadau cefnogaeth cyffredinol ac arbenigol ym maes trais yn y cartref yn bodoli ledled y wlad, gan gynnwys gwasanaethau ar gyfer dioddefwyr o gymunedau lleiafrifol. Mae manylion cyswllt rhai o'r rhain i'w cael yn Atodiad C.

Unedau Gofal Tystion

11.6 Mae gennym Unedau Gofal Tystion un pwrpas ym mhob Rhanbarth y CPS, sy'n cael eu rhedeg ar y cyd gan y CPS a'r heddlu. Mae Swyddogion Gofal Tystion yn darparu un man cyswllt a chefnogaeth wedi'i theilwra ar gyfer pob tyst i sicrhau eu bod yn gallu rhoi eu tystiolaeth orau. Mae'r gefnogaeth hon sydd wedi'i theilwra yn seiliedig ar asesu anghenion, sy'n cynnwys ystyried cefnogaeth arbenigol y

gall fod ar dyst unigol ei hangen. Gall y gefnogaeth hon fod ar ffurf cyfieithwyr achrededig ar gyfer tystion â nam ar eu clyw neu ag anawsterau iaith; galluogi rhai pobl hŷn i roi eu tystiolaeth ar eu heistedd oherwydd eu llesgedd; neu ganiatáu i dystion roi eu tystiolaeth trwy gyswllt byw, er mwyn osgoi'r angen iddynt fod yn bresennol yn gorfforol yn y llys. Gall Unedau Gofal Tystion fod â chysylltiadau hefyd â gwasanaethau cefnogi arbenigol ar gyfer pobl ag anghenion penodol.

11.7 Mewn achosion o drais yn y cartref, nid yr Uned Gofal Tystion yw'r un man cyswllt bob amser ar gyfer dioddefwyr. Dylai Rhanbarthau'r CPS fod â phrotocolau lleol cytûn sy'n amlinellu cyfrifoldebau'r Uned Gofal Tystion ac uned arbenigol yr heddlu ar drais yn y cartref er mwyn sicrhau bod y dioddefwr yn cael un man cyswllt. Argymhellir bod y protocolau hyn yn ddigon eang i gwmpasu'r holl asiantaethau cefnogi o fewn y rhanbarth.

11.8 Os mai'r Swyddog Gofal Tystion yw'r un man cyswllt, bydd y dioddefwr yn cael gwybodaeth a chefnogaeth o adeg y cyhuddo hyd at derfyn yr achos. Bydd y Swyddog Gofal Tystion yn cysylltu â'r Gwasanaeth Tystion i drefnu ymweliadau cyn y treial er mwyn i'r dioddefwr ddod yn gyfarwydd ag adeilad y llys. Mewn rhai rhannau o'r wlad, efallai y cytunir y bydd swyddog yr heddlu neu'r cynghorwyr IDVA yn rhoi gwybod i'r dioddefwr beth sy'n digwydd.

Addewid yr Erlynwyr

11.9 Mae gan y CPS Addewid yr Erlynwyr deg pwynt sy'n disgrifio lefel y gwasanaeth y gall dioddefwyr ddisgwyl ei dderbyn gan erlynwyr. Mae Addewid yr Erlynwyr yn sicrhau,

ymysg pethau eraill, bod sylw yn cael ei roi i anghenion penodol dioddefwyr a thystion; eu bod yn derbyn cymorth yn y llys i'w hatgoffa o'u datganiad ysgrifenedig neu gyfweliad fideo; a'u bod yn cael eu gwarchod rhag ymosodiadau diwarant neu amherthnasol ar eu cymeriad.

11.10 Fe gewch gopi o Addewid yr Erlynwyr ar wefan y CPS:

http://www.cps.gov.uk/publications/prosecution/prosecutor_pledge.html

Y Côd Ymarfer i Ddioddefwyr Troseddau

11.11 Mae'r Côd hwn yn nodi rhwymedigaethau'r CPS ac asiantaethau cyfiawnder troseddol eraill tuag at ddioddefwyr. Un o'r rhwymedigaethau hyn yw sicrhau y byddwn bob amser yn ein cyflwyno ein hunain i ddioddefwyr a thystion cyn cynnal treial.

11.12 Mae copïau o'r Côd Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr Trosedd i'w cael ar ein gwefan:

http://www.cps.gov.uk/victims_witnesses/victims_code.pdf

11.13 Gellir gwneud cwyn am dorri Côd y Dioddefwyr. I gael rhagor o wybodaeth, gweler adran 17 isod.

Mesurau arbennig

11.14 Mae rhoi tystiolaeth yn gallu bod yn brofiad trawmatig dros ben i ddioddefwyr trais yn y cartref. Mae rhai yn ei chael hi'n anodd rhoi tystiolaeth pan fyddant yn gallu gweld y diffynnydd. Mewn rhai achosion, gall y llys gytuno i ganiatáu

i dyst roi tystiolaeth gyda chymorth "mesurau arbennig". Rhaid i erlynwyr wneud cais am fesurau arbennig yn Llys y Goron a hefyd yn y llysoedd ynadon. Y llys fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch caniatáu hynny ond rhaid iddo roi ystyriaeth i farn y tyst. Nid yw'n dilyn y bydd y llys yn caniatáu mesurau arbennig. Pwrpas y mesurau hyn yw helpu'r tystion canlynol (er nad yw'r holl fathau o fesurau arbennig ar gael i'r holl dystion hyn):

- plant dan 17 oed;
- oedolion (17 oed a throsodd er dibenion y ddeddfwriaeth hon) y gellid eu hystyried yn agored i niwed oherwydd analluogrwydd, megis anhwylder corfforol neu feddyliol; a
- thystion y mae eu tystiolaeth yn debygol o ddioddef oherwydd eu bod yn cael eu dychryn.

11.15 Dyma enghreifftiau o fesurau arbennig:

- defnyddio sgriniau yn y llys i rwystro'r tyst a'r diffynnydd rhag gweld ei gilydd;
- rhoi tystiolaeth yn rhywle heblaw'r llys trwy gyswllt teledu byw (ond yn aml bydd y diffynnydd yn gallu gweld y tyst o hyd);[1]
- defnyddio cymhorthion cyfathrebu, er enghraifft, bwrdd yr wyddor neu ddolen glyw;
- rhoi tystiolaeth trwy ganolwr (gweler isod am ragor);
- clirio'r oriel gyhoeddus mewn achosion o droseddau rhywiol neu achosion sy'n gysylltiedig â dychryn; a

[1] Gall fod yn bosib sefydlu cyswllt byw o bell os bydd y dioddefwr neu'r tyst yn methu mynychu'r llys yn gorfforol neu os byddant yn gofidio am fod yn yr un lleoliad â'r diffynnydd.

- chwarae datganiad y tyst wedi'i recordio ar fideo i'r llys, wedi i'r datganiad gael ei gymryd gan yr heddlu yn ystod yr ymchwiliad.[2]

11.16 Dylai'r heddlu ymchwilio i'r angen am fesurau arbennig yn gyntaf (gan fanteisio ar wybodaeth gan y cynghorwyr IDVA, os oes un) ac yna drafod hyn gyda'r erlynydd. Efallai y bydd gan y Swyddog Gofal Tystion rywbeth i'w ychwanegu yn dilyn asesiad anghenion. Rhoddir ystyriaeth i farn y dioddefwr a thystion, ac mae'n bwysig bod manteision ac anfanteision pob mesur arbennig sydd ar gael yn cael eu hegluro wrth y dioddefwr er mwyn iddo ef neu hi allu gwneud cais gwybodus.

11.17 Rhagdybir y bydd dioddefwyr troseddau rhywiol yn gymwys ar gyfer mesurau arbennig penodol os bydd arnynt eu heisiau a'u bod yn bodloni'r meini prawf statudol. Mae'r sefyllfa yn wahanol i blant neu bobl ifanc (dan 17 oed) oherwydd fel arfer fe fydd yn rhaid iddynt roi eu tystiolaeth trwy recordiad fideo o'r dystiolaeth a chyswllt teledu oni bai fod y llys yn ystyried bod gwneud hynny yn groes i fuddiannau cyfiawnder (er enghraifft, ble mae'r recordiad fideo yn cynnwys nifer o ddiffygion technegol, cwestiynau amhriodol, neu ddeunydd arall sy'n niweidiol i dreial teg; neu os bydd y plentyn neu'r person ifanc yn mynegi dymuniad uniongyrchol i beidio â defnyddio mesur arbennig).

[2] Mae'r mesur arbennig hwn ar gael i blant ac oedolion agored i niwed yn Llys y Goron, i ddioddefwyr mewn achosion troseddau rhywiol difrifol yn Llys y Goron, ac i dystion sy'n blant sydd angen diogelwch arbennig yn y llysoedd ynadon.

11.18 Rhaid i'r llys roi ystyriaeth i rai pethau, er enghraifft, barn tystion sy'n oedolion, wrth benderfynu caniatáu mesurau arbennig ai peidio. Mae angen i'r llys fod yn fodlon y bydd tystiolaeth y tyst yn debygol o fod o ansawdd is heb y mesurau arbennig y gofynnir amdanynt.

11.19 Wrth benderfynu a fydd ansawdd y dystiolaeth yn debygol o ddioddef, bydd y llys yn ystyried, ymysg pethau eraill:

- cefndir cymdeithasol a diwylliannol a tharddiad ethnig y tyst;
- crefydd neu gredoau y tyst;
- unrhyw ymddygiad tuag at y tyst gan y diffynnydd neu deulu neu gydnabod y diffynnydd.

11.20 Nid yw hon yn rhestr hollgynhwysfawr a gall y llys roi ystyriaeth i unrhyw beth arall a ddwynir i'w sylw.

11.21 Dylid gwneud penderfyniadau mor fuan â phosib ynghylch a yw mesurau arbennig yn ofynnol, ac yn ddelfrydol pan wneir penderfyniadau ynghylch cyhuddo ai peidio. Fodd bynnag, gall amgylchiadau newid neu gall tystion newid eu meddyliau ac mae modd gwneud cais am fesurau arbennig ar unrhyw gam yn ystod yr achos.

Canolwyr ar gyfer tystion agored i niwed

11.22 Y mae defnyddio canolwr yn fath arall o fesur arbennig ac y mae ar gael i blant ac oedolion yr ystyrir eu bod yn agored i niwed. Mae canolwr yn rhywun a gymeradwyir gan y llys i roi gwasanaeth sy'n galluogi tystion a'r llys gyfathrebu â'i gilydd. Bydd canolwyr proffesiynol – sef therapyddion lleferydd ac iaith fel arfer neu ganolwyr pobl fyddar sy'n

deall diwylliant pobl fyddar – yn gweithio gyda thystion i wneud yn siwr eu bod yn cael eu deall ac yn gallu deall y cwestiynau a ofynnir iddynt.

11.23 Gall canolwyr weithio gyda thystion ar ran yr erlyniad neu'r amddiffyniad a chynorthwyo wrth gymryd tystiolaeth yn y lle cyntaf a phan fyddant yn y llys, fel y gallant roi eu tystiolaeth orau yn y treial. Daw'r canolwyr o amrywiaeth o gefndiroedd gan gynnwys gwaith cymdeithasol, therapi iaith a lleferydd a seicoleg. Fel arfer byddant yn arbenigwyr drwy hyfforddiant neu o bosib gan fod ganddynt adnabyddiaeth unigryw o'r tyst.

Cyfarfod mesurau arbennig rhwng y CPS a dioddefwyr a thystion trais yn y cartref

11.24 Os byddwn yn penderfynu gwneud cais i'r llys am fesurau arbennig a ble bo'n briodol, byddwn yn gofyn i'r heddlu ddarganfod a fyddai'r tyst yn hoffi cwrdd â'r erlynydd.

11.25 Pwrpas cyfarfod o'r fath yw meithrin ymddiriedaeth a hyder a'n galluogi i sicrhau'r tyst y bydd eu hanghenion yn cael eu hystyried. Byddwn hefyd yn ceisio cynnig cyfarfod o'r fath os byddwn wedi penderfynu peidio â gwneud cais am fesurau arbennig er mwyn gallu egluro'r penderfyniad hwnnw.

11.26 Nid oes raid i'r tyst fynychu'r cyfarfod hwn heb gwmni. Gallant ddod â pherthynas, ffrind neu gefnogwr arall gyda nhw. Er mwyn hwyluso cyfathrebu gyda'r dioddefwr, gall fod yn briodol i gyfieithydd neu berson arall tebyg fynychu'r cyfarfod. Gall dioddefwyr ddod â'u cyfieithydd proffesiynol eu hunain, neu gall y CPS ddarparu cyfieithydd yn rhad ac am ddim. Rydym yn ymwybodol o'r angen i ddefnyddio

cyfieithwyr proffesiynol ac osgoi defnyddio aelodau o'r teulu neu ffrindiau. Ble bo modd, byddwn yn sicrhau bod yr adfocad a fydd yn cynnal y treial yn mynychu'r cyfarfod rhwng yr erlynydd a'r tyst. Bydd yr erlynydd hefyd yn cynnig i'r tyst gael mynd ar ymweliad ymgyfarwyddo â'r llys.

11.27 Mae rhagor o wybodaeth am gyfarfodydd gyda'r CPS ar gyfer tystion agored i niwed neu dystion sy'n cael eu brawychu yn y daflen "Tystion, Eich Cyfarfod gydag Erlynydd y CPS". Mae'r daflen hon ar gael gan Gangen Cyfathrebu y CPS neu ar ein gwefan:

http://www.cps.gov.uk/publications/prosecution/witnesseng.html

Cyfweliadau gyda thystion cyn y treial

11.28 Mae'r CPS wedi cyflwyno cynllun ledled Cymru a Lloegr sy'n galluogi'r erlynydd i gwrdd â'r dioddefwr neu dystion eraill ar gam cynnar yn y broses droseddol os bydd yr erlynydd yn ystyried hyn yn briodol. Mae'r cyfarfodydd hyn yn wahanol i'r cyfarfodydd mesurau arbennig a ddisgrifir uchod. Pwrpas y cyfarfodydd gyda thystion cyn y treial yw galluogi'r erlynydd i wneud penderfyniad mwy gwybodus ynghylch unrhyw agwedd ar yr achos. Byddwn yn ystyried pob achos yn ofalus ac yn sensitif. Bydd ein penderfyniadau yn wrthrychol ond yn cael eu gwneud o fewn fframwaith sy'n hybu cefnogaeth i ddioddefwyr trwy roi gwybod iddynt beth sy'n digwydd.

Cefnogaeth y CPS i ddioddefwyr a thystion yn y llys

11.29 Mae'r CPS yn llwyr ymroddedig i gymryd yr holl gamau ymarferol i helpu dioddefwyr a thystion drwy'r profiad o fod yn rhan o'r broses cyfiawnder troseddol, sef profiad anodd yn aml.

11.30 Pan fydd tyst yn mynychu llys, bydd erlynydd y CPS sy'n cyflwyno'r achos neu'r erlynydd cysylltiol neu'r gweithiwr achosion penodol yn eu cyflwyno eu hunain ac ateb unrhyw ymholiadau cyffredinol sydd gan y tyst. Nid oes hawl ganddynt drafod manylion yr achos gyda'r tyst.

11.31 Cafodd amryfal fentrau, fel mesurau arbennig, cyfarfodydd rhwng y CPS a thystion agored i newid neu sy'n cael eu dychryn, a chreu Unedau Gofal Tystion un pwrpas wedi'u staffio gan y CPS a phersonél yr heddlu, oll eu cynllunio i gynyddu hyder y tyst yn y system cyfiawnder troseddol. Mae cefnogaeth ar gael hefyd, o gam cynnar iawn yn y broses, gan yr heddlu ac asiantaethau cefnogi eraill, a gall hynny barhau gydol yr erlyniad a thu hwnt.

11.32 Byddwn yn sicrhau bod trefniadau priodol yn cael eu gwneud i gael cyfieithydd ar gyfer yr achos llys pan fydd angen un.

11.33 Weithiau, gall y sawl sy'n erlyn fod yn fargyfreithiwr (sydd hefyd yn cael ei alw'n gwnsler) neu'n gyfreithiwr nad yw'n aelod o'r CPS ond a gafodd ei gyfarwyddo gennym i gyflwyno'r achos yn y llys. Bydd y CPS yn mynnu bod pob bargyfreithiwr neu gyfreithiwr y byddwn yn ei gyfarwyddo yn gyfarwydd â'n polisïau a'n trefniadau ac yn gweithredu'n unol â nhw.

11.34 Os bydd tystion yn gorfod disgwyl yn y llys, byddwn yn sicrhau eu bod yn cael gwybod y rhesymau dros yr oedi a'r amser yn fras pryd y bydd angen iddynt roi tystiolaeth.

11.35 Ble bynnag y bydd modd, byddwn yn ceisio sicrhau, trwy'r Gwasanaeth Tystion neu'r cynghorwyr IDVA, bod mynedfeydd, allanfeydd a chyfleusterau aros ar wahân ar gyfer tystion yr erlyniad fel nad oes yn rhaid iddynt gymysgu â'r diffynnydd nac â ffrindiau na theulu'r diffynnydd.

11.36 Bydd y CPS yn talu treuliau rhesymol i'r tyst – gan gynnwys gofal plant a theithio – am fynychu'r llys.

11.37 Bydd tyst a wnaeth ddatganiad ysgrifenedig yn cael darllen y datganiad hwnnw er mwyn rhoi proc i gof y tyst cyn rhoi tystiolaeth. Os bydd y dystiolaeth wedi'i recordio ar fideo ac mai dyma fydd y dystiolaeth flaenaf, fe wneir trefniadau i dystion gael gwylio'r recordiad fideo cyn y gwrandawiad er mwyn rhoi proc i'r cof.

Datganiadau Personol Dioddefwyr

11.38 Dylai pob dioddefwr trosedd gael cyfle gan yr heddlu i wneud Datganiad Personol Dioddefwr. Os na chawsant gyfle, gallant gael gair â'u Huned Gofal Tystion neu wasanaeth cefnogi arall i ofyn i drefniadau gael eu gwneud er mwyn gallu gwneud Datganiad. Mae hyn yn wahanol i ddatganiad sy'n cael ei wneud i'r heddlu yn disgrifio'r digwyddiad. Y mae'n ddatganiad gan un a ddioddefodd yn sgil trosedd sy'n egluro'r effaith a gafodd y trosedd arnynt.

11.39 Yn y Datganiad, gall dioddefwyr ddisgrifio sut mae'r trosedd wedi effeithio arnynt. Gallant siarad am eu dymuniadau neu eu hanghenion yn ystod yr achos ac unrhyw bryderon a allai fod ganddynt o ganlyniad i'r trosedd, er enghraifft, ynghylch diogelwch, dychryn neu statws mechnïaeth y diffynnydd. Gallant sôn am eu cefnogaeth (neu ddiffyg cefnogaeth) ar gyfer yr erlyniad ac unrhyw geisiadau sydd ganddynt am gymorth gan unrhyw rai o'r asiantaethau cefnogi. Fel hyn, gall y llys ddod i well dealltwriaeth nid yn unig am y trosedd ond hefyd am gyd-destun y trosedd a'i effeithiau a'i ganlyniadau.

11.40 Rhywbeth dewisol yw'r datganiad, a dylid gofyn i'r dioddefwr a yw'n dymuno gwneud datganiad o'r fath ai peidio neu a oes arno ef/hi angen help i wneud datganiad gan weithiwr cefnogi neu aelod o'r teulu. Gellir gwneud y datganiad hwn unrhyw bryd ac mae'n bosib gwneud mwy nag un datganiad.

11.41 Mae taflen ar gael sy'n egluro beth yw Datganiadau Personol Dioddefwyr a sut y gellir eu defnyddio. Mae copïau o'r daflen ar gael gan Gangen Cyfathrebu y CPS neu ar wefan y Swyddfa Gartref yn:

http://www.homeoffice.gov.uk/documents/victimstate.pdf

11.42 Byddwn yn rhoi ystyriaeth i unrhyw wybodaeth a geir yn Natganiad Personol y Dioddefwr a byddwn yn dweud wrth y llys am effeithiau'r trosedd ar y dioddefwr. Gallwn ddefnyddio'r datganiadau hyn i'n helpu i wneud penderfyniadau ynghylch achosion, er enghraifft, wrth benderfynu a ddylem ofyn i'r llys wrthod mechnïaeth neu osod amodau ar fechnïaeth.

Y Gwasanaeth Tystion

11.43 Mewn llysoedd ynadon a chanolfannau Llysoedd y Goron mae Gwasanaeth Tystion ar gael. Gwasanaeth a ddarperir gan Gymorth i Ddioddefwyr yw hwn. Ceir rhagor o wybodaeth am y gwasanaeth hwn gan yr heddlu lleol neu swyddfa leol Cymorth i Ddioddefwyr. Mewn rhai llysoedd mae Gwasanaeth Tystion Ifanc hefyd.

11.44 Gall aelodau'r Gwasanaeth Tystion drefnu ymweliadau ymgyfarwyddo cyn yr achos llys os bydd angen a gallant egluro'r hyn allai ddigwydd yn y llys. Ond, nid ydynt yn cael trafod manylion achosion.

11.45 Pan fydd tyst yn pryderu a phoeni am fynd i'r llys a rhoi tystiolaeth, gellir caniatáu i aelod o'r Gwasanaeth Tystion fynd gyda'r tyst i'r llys, i roi cefnogaeth. Os cafodd y tyst gefnogaeth gan asiantaethau eraill gellir caniatáu i aelod o'r gwasanaeth cefnogi hwnnw (er enghraifft, Cymorth i Fenywod neu gynghorwyr IDVA) fynd gyda'r tyst i'r llys hefyd.

Cyfyngiadau gohebu

11.46 Mewn rhai achosion, mae'r gyfraith yn caniatáu i ni wneud cais am orchymyn a fydd yn rhwystro'r cyfryngau rhag adrodd ar rai o fanylion y tystion a allai arwain at adnabod y tystion.

11.47 Rhaid i'r llys ddilyn trefn benodol wrth ystyried cais o'r fath a rhaid penderfynu a yw tyst yn gymwys ac a fydd y cyfyngiadau gohebu yn debygol o wella ansawdd tystiolaeth y tyst neu lefel cydweithrediad y tyst.

11.48 Wrth benderfynu a yw tyst yn gymwys, bydd y llys yn ystyried a fydd ansawdd tystiolaeth y tyst neu lefel y cydweithrediad yn dioddef oherwydd yr ofn neu'r gofid a fyddai'n gysylltiedig â chael ei adnabod gan aelodau'r cyhoedd fel tyst yn yr achos. Fe fydd hefyd yn ystyried ffactorau fel amgylchiadau'r trosedd, oed y tyst, ac ymddygiad tuag at y tyst gan y diffynnydd neu gydnabod y diffynnydd. Gall y llys hefyd ystyried ofn y tyst y bydd ei rywioldeb yn cael ei ddatgelu, os yw'r dioddefwr yn lesbiad, yn hoyw neu'n ddeurywiol.

11.49 Unwaith y bydd y ffactorau hyn wedi'u hystyried, bydd y llys yn penderfynu a fyddai gwneud gorchymyn yn briodol er budd cyfiawnder, gan gofio y gall fod er budd y cyhoedd i osgoi cyfyngiad sylweddol ar ohebu ar yr achos.

11.50 Mae hawl gan gynrychiolwyr y cyfryngau i wrthwynebu gorchymyn llys sy'n gwahardd cyhoeddi'r wybodaeth hon.

11.51 Pan wneir gorchymyn, effaith hynny fydd na cheir cynnwys unrhyw fater sy'n ymwneud â'r tyst mewn unrhyw gyhoeddiad yn ystod ei oes ef neu hi os yw'n debygol o ddatgelu ei fod ef neu hi yn dyst yn yr achos.

12 Plant

12.1 Rydym yn cydnabod bod profiad o drais yn y cartref yn gallu cael effaith ddifrifol ar blant a phobl ifanc. Gall plant a phobl ifanc hwythau fod yn ddioddefwyr; gallant fod yn dystion i drais yn y cartref; neu gall trais yn y cartref effeithio arnynt am y rheswm syml ei fod yn digwydd yn y tŷ ble maent yn byw. Os bydd yr heddlu yn dweud wrthym fod plentyn neu berson ifanc ynghlwm â'r mater, gallai effeithio ar ein barn am ddifrifoldeb y trosedd. Y mae'n wybodaeth hefyd y gallwn ei rhoi i'r llys er mwyn iddo wybod beth yw effaith trosedd ar blentyn neu berson ifanc. Gallai hyn fod yn berthnasol pan fydd diffynnydd yn cael ei ddedfrydu.

12.2 Bydd erlynwyr yn ystyried hawliau a buddiannau plant a phobl ifanc ar bob cam mewn achosion o drais yn y cartref. Byddwn yn meddwl bob amser am yr hyn sydd orau i blant a phobl ifanc yn yr achosion hyn. Diogelwch a lles corfforol ac emosiynol plant yw'r materion hollbwysig i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau mewn achosion o drais yn y cartref.

12.3 Rydym yn sylweddoli bod perygl y gall plant a phobl ifanc ddod yn ddioddefwyr am yr eildro yn ystod achosion troseddol oherwydd y ffordd y cânt eu trin. Bydd erlynwyr yn gweithio'n galed i rwystro hyn rhag digwydd. Y mae'n bosib hefyd i blant a dioddefwyr ifanc wneud Datganiad Personol Dioddefwr, gan ddisgrifio'r effaith a gafodd y trosedd arnynt.

12.4 Pan fydd plant a phobl ifanc yn dystion, byddwn yn sicrhau eu bod yn cael cefnogaeth dda ac yn gallu rhoi eu tystiolaeth yn y llys gyda chyn lleied o bwysau a phryder â

phosib. Rydym yn cydnabod bod gan blant a phobl ifanc anghenion a dymuniadau penodol. Rydym yn ymwybodol y gall Cymorth i Ddioddefwyr ddarparu gwell gwasanaethau tystion i blant a phobl ifanc yn y llys ac yn annog eu cyfeirio atynt mewn achosion o'r fath.

12.5 I gael manylion pellach ynghylch y ffordd y byddwn yn delio ag achosion sy'n cynnwys plant a phobl ifanc fel dioddefwyr a thystion, gweler 'Plant a Phobl Ifanc: Polisi'r CPS ynghylch erlyn achosion troseddol yn ymwneud â phlant a phobl ifanc fel dioddefwyr a thystion'. Mae hwn i'w gael gan Gangen Cyfathrebu y CPS neu yn:

http://www.cps.gov.uk/victims_witnesses/children_policy.pdf

12.6 Mae llyfrynnau ar gael hefyd i roi gwybod i blant a phobl ifanc beth fydd yn digwydd os byddant yn rhoi gwybod i'r heddlu am drosedd. Y mae pecyn ar gyfer tystion ifanc a chopïau o 'Millie y tyst' a 'Jerome: tyst yn y llys' ar gael gan Gangen Cyfathrebu y CPS neu ar wefan y CPS yn:

http://www.cps.gov.uk/victims_witnesses/further_info.html

Therapi Cyn Treial

12.7 Mae lles tystion yn hollbwysig, yn enwedig pan fydd plant neu bobl ifanc wedi wynebu trais yn y cartref neu wedi bod yn dyst i hynny. Ni ddylai'r plentyn neu'r person ifanc deimlo na allant ofyn am gymorth oherwydd eu bod nhw (neu'r rhai sy'n gofalu amdanynt) yn credu y gall derbyn therapi o'r fath danseilio erlyniad. Mewn gwirionedd, ni fydd sawl math o therapi yn cael unrhyw effaith anffafriol ar yr achos troseddol.

12.8 Nid mater i'r heddlu na'r CPS yw penderfynu a ddylai tyst dderbyn therapi cyn achos troseddol. Mater i'r unigolyn neu ofalwr, ar y cyd â'r asiantaethau proffesiynol sy'n darparu cefnogaeth, yw penderfynu mynd am therapi ai peidio.

12.9 Y mae'n bwysig, fodd bynnag, fod yr heddlu a'r CPS yn cael gwybod bod therapi yn cael ei gynnig, neu'n digwydd.

12.10 Mae'r Canllaw llawn i'w gael yn "Darparu Therapi ar gyfer Plant sy'n Dystion cyn Achos Troseddol (Arweiniad i Arferion)" a gyhoeddwyd yn 2001 ac yn: "Provision of Therapy for Vulnerable or Intimated Adult Witnesses prior to a Criminal trial (Practice Guidance)" a gyhoeddwyd yn 2002. Mae'r ddwy ddogfen i'w cael yn:

www.cps.gov.uk
www.homeoffice.gov.uk

13 Rhoi gwybod i ddioddefwyr beth sy'n digwydd

13.1 Mae materion diogelwch sy'n berthnasol i achosion o drais yn y cartref yn golygu ei bod hi'n bwysig bod dioddefwyr yn cael gwybod am gynnydd yr achos. Dan y Côd i Ddioddefwyr, mae Unedau Gofal Tystion yn gyfrifol am roi gwybod i ddioddefwyr a thystion am ddyddiadau gwrandawiadau llys neu am ddatblygiadau pwysig eraill yn yr achos os mai nhw yw'r un man cyswllt ar gyfer y dioddefwr. Bydd Unedau Gofal Tystion yn cysylltu â dioddefwr yn ôl dymuniadau'r dioddefwr. Gall hyn gynnwys: trwy lythyr; dros y ffôn; trwy neges destun; neu drwy drydydd person. O safbwynt dioddefwyr trais yn y cartref, dylid gwneud hyn o fewn un diwrnod gwaith i dderbyn y dyddiad gan y llys. Mewn achosion o drais yn y cartref, rydym yn cydnabod ei bod hi'n aml yn bwysig sicrhau bod dioddefwyr yn cael gwybod cyn gynted â phosib.

13.2 Rydym yn ymwybodol y gall fod yn well gan rai dioddefwyr enwebu ffrind, aelod o'r teulu, cynghorwyr IDVA neu aelod arall o'r gwasanaethau gwirfoddol i weithredu fel eu man cyswllt, ac rydym yn fodlon hwyluso hyn.

13.3 Bydd Swyddogion Gofal Tystion yn rhoi gwybodaeth a chefnogaeth i'r dioddefwr o adeg y cyhuddo hyd at derfyn yr achos os mai nhw yw'r un man cyswllt ar gyfer y dioddefwr.

14 Llysoedd trais yn y cartref arbenigol

14.1 Mewn rhai rhannau o Gymru a Lloegr, bydd achosion o drais yn y cartref yn cael eu gwrando mewn llysoedd trais yn y cartref arbenigol (SDVC). Mae'r llysoedd hyn yn ymdrin â thrais yn y cartref trwy bartneriaeth gyda'r heddlu, erlynwyr, staff y llys, y gwasanaeth prawf a gwasanaethau cefnogi arbenigol ar gyfer dioddefwyr. Mae SDVC yn rhoi ffordd arbenigol o ddelio ag achosion o drais yn y cartref yn y llysoedd ynadon. Ni fydd llysoedd arbenigol yn cael eu cynnal mewn adeiladau llys ar wahân, ond at ei gilydd mae ganddynt:

- gefnogaeth a chyngor wedi'u teilwra ar gyfer dioddefwyr gan gynghorwyr IDVA;
- achosion trais yn y cartref wedi'u clystyru ar ddiwrnod penodol neu wedi'u rhoi ar lwybr carlam trwy'r system;
- ynadon ac erlynwyr sydd wedi'u hyfforddi'n arbennig; a
- mynedfeydd, allanfeydd a mannau aros ar wahân fel na fydd dioddefwyr yn dod i gysylltiad â diffynyddion.

14.2 Bydd asiantaethau yn cydweithio i nodi, olrhain ac asesu risg achosion o drais yn y cartref, i gefnogi dioddefwyr trais yn y cartref a rhannu mwy ar wybodaeth, er mwyn i ragor o droseddwyr gael eu dwyn gerbron llys.

15 Dedfrydu

15.1 Pan fydd diffynnydd yn pledio'n euog neu'n cael ei ddyfarnu'n euog, rhaid i'r llys benderfynu ar ddedfryd a gall ddewis o blith amrywiaeth eang o gosbau. Mae canllawiau dedfrydu'r ynadon yn nodi bod bradychu ymddiriedaeth yn y cartref yn elfen sy'n dwysáu ymosodiadau, a bod dioddefwyr "agored i niwed" hefyd yn nodwedd sy'n dwysáu. Bydd barnwyr Llys y Goron yn ystyried cyfraith achosion berthnasol a chanllawiau dedfrydu a gyhoeddir gan y Cyngor Canllawiau Dedfrydu. Gallai'r ddedfryd fod ar ffurf gorchymyn adsefydlu, cosb gymunedol, dirwyon, neu'r ddalfa. Gall y llys fynnu bod troseddwr yn mynychu rhaglen i bobl sy'n cam-drin yn y cartref a gynhelir gan y Gwasanaeth Prawf. Nod y rhaglen hon yw gwneud dioddefwyr yn ddiogelach, trwy helpu pobl sy'n cam-drin i newid eu hymddygiad a datblygu perthnasau sy'n llawn parch a heb gam-drin.

15.2 Mae'n ddyletswydd ar yr erlyniad fynd ati i gynorthwyo'r llys gyda'r gyfraith a chanllawiau ar ddedfrydu. Rhaid i'r erlynydd fod yn ymwybodol o ddadleuon lliniarol sy'n dilorni cymeriad tyst, a herio unrhyw beth sy'n gamarweiniol, yn anwir neu'n annheg.

15.3 Cyn dedfrydu, gall y barnwr neu'r ynadon wneud cais am baratoi adroddiadau cyn dedfrydu. Y Gwasanaeth Prawf fydd yn paratoi'r rhain a byddant yn cael eu defnyddio i gynorthwyo gyda phenderfyniadau dedfrydu. Byddwn yn rhoi gwybodaeth angenrheidiol i'r Gwasanaeth Prawf er mwyn iddynt baratoi'r adroddiadau sy'n ofynnol gan y llys.

15.4 Byddwn yn sicrhau bod y llys yn cael yr holl wybodaeth angenrheidiol er mwyn dedfrydu'n briodol. Byddwn yn rhoi gwybod i'r Llys am unrhyw Ddatganiad Personol Dioddefwr, er mwyn iddo allu deall effaith y trosedd ar y dioddefwr. Trwy wneud hyn, byddwn yn sicrhau bod y llys yn gallu dod i benderfyniad gwybodus ynghylch dedfrydu. Byddwn hefyd yn rhoi ystyriaeth ofalus i unrhyw ddedfryd a roddir er mwyn sicrhau ei bod yn adlewyrchu'r trosedd.

15.5 Byddwn yn rhoi gwybodaeth i'r llys i'w gynorthwyo i benderfynu a ddylai wneud unrhyw orchmynion y mae ganddo rym i'w gwneud yn ychwanegol at y brif ddedfryd. Mae hyn yn cynnwys gwneud gorchmynion mewn achosion priodol ar gyfer digolledu am golled, difrod neu niwed, a gwneud gorchmynion atal[3] neu orchmynion ymddygiad gwrthgymdeithasol.

15.6 Cyn cael ei ddedfrydu, mae hawl gan ddiffynnydd i wneud ple i liniaru. Byddwn yn herio unrhyw liniaru gan yr amddiffyniad sy'n ymosod yn annheg ar gymeriad y dioddefwr.

15.7 Os bydd y diffynnydd yn pledio'n euog ond yn anghytuno â fersiwn yr erlyniad o'r hyn a ddigwyddodd, rhaid i'r llys benderfynu pa fersiwn i'w defnyddio wrth ddedfrydu. Er mwyn gwneud hyn, gall y llys gynnal 'gwrandawiad Newton'. Ni fydd y llys yn cynnal gwrandawiad o'r fath oni bai ei fod yn teimlo y byddai gwahaniaeth sylweddol yn y ddedfryd petai'r diffynnydd yn cael ei ddedfrydu yn ôl

[3] Ar hyn o bryd, y mae'r rhain ar gael mewn rhai achosion o aflonyddu yn unig. Fodd bynnag, mae adran 12 Deddf Trais yn y Cartref, Troseddu a Dioddefwyr 2004 (nad yw mewn grym eto) yn cynnwys darpariaethau i estyn hyn i bob trosedd wrth euogfarnu ac mewn rhai amgylchiadau wrth ryddfarnu.

fersiwn yr erlyniad o'r hyn a ddigwyddodd. Pe na bai gwahaniaeth sylweddol yn y ddedfryd, bydd y diffynnydd yn cael ei ddedfrydu yn ôl ei esboniad ef neu hi o'r hyn a ddigwyddodd.

15.8 Os bydd y llys yn teimlo y byddai'n gwneud gwahaniaeth sylweddol, gall y llys wrando ar dystiolaeth gan y ddwy garfan a gall wneud penderfyniad ar sail achosion a gyflwynir gan yr amddiffyniad a'r erlyniad. Ar ddiwedd y gwrandawiad, rhaid i'r barnwr ddweud a yw'r erlyniad wedi profi ei fersiwn o'r digwyddiadau y tu hwnt i amheuaeth resymol.

15.9 Os bydd barnwr yn Llys y Goron yn rhoi dedfryd sy'n rhy drugarog ym marn yr erlyniad, sef un nad yw'n adlewyrchu difrifoldeb y trosedd, bydd y CPS yn gofyn i'r Twrnai Cyffredinol adolygu'r ddedfryd. Fodd bynnag, mae'r drefn hon yn gymwys ar gyfer ystod gyfyngedig o droseddau yn unig (er enghraifft, troseddau rhywiol a chreulondeb wrth blant). Rhaid gwneud cais i'r Llys Apêl o fewn 28 diwrnod i'r ddedfryd. Y Llys Apêl fydd yn penderfynu a yw'r ddedfryd yn rhy drugarog ac, os ydyw, a ddylid cynyddu'r ddedfryd.

15.10 Os nad yw'r erlyniad yn ystyried y ddedfryd yn rhy drugarog ond bod y dioddefwr yn anghytuno, gall y dioddefwr ofyn i'r Twrnai Cyffredinol ystyried y ddedfryd, ond rhaid gwneud hynny o fewn 28 diwrnod i'r penderfyniad dedfrydu. Os bydd y CPS yn penderfynu peidio â chyflwyno'r achos i'w ystyried gan y Twrnai Cyffredinol, rhaid i ni hysbysu'r achwynydd yn ddi-oed er mwyn diogelu opsiwn yr achwynydd i gwyno'n uniongyrchol wrth y Twrnai Cyffredinol, a bydd digon o amser gan y Twrnai Cyffredinol, os gwneir cwyn, i ystyried yr achos.

15.11 Os bydd y Twrnai Cyffredinol o'r farn bod y ddedfryd yn rhy drugarog, gall y Twrnai Cyffredinol ei chyfeirio at y Llys Apêl.

15.12 Fe fyddwn, trwy'r Uned Gofal Tystion (neu fan cyswllt arall, er enghraifft, swyddog yr heddlu) yn rhoi gwybod i ddioddefwyr am unrhyw apeliadau gan yr amddiffyniad yn erbyn euogfarnau a dedfrydau (gweler adran 6 y Côd Ymarfer i Ddioddefwyr Troseddau). Bydd yr Uned Gofal Tystion neu'r heddlu hefyd yn hysbysu dioddefwyr os caniateir mechnïaeth i ddiffynnydd yn dilyn cais llwyddiannus am ganiatâd i apelio, neu ble caniateir apêl.

16 Ymgysylltu â'r gymuned

16.1 Fel rhan o'n hymrwymiad i wella'r gwasanaeth a gynigiwn, byddwn yn ymgysylltu â chymunedau er mwyn deall eu pryderon ac egluro'r hyn a wnawn. Mae cyhoeddi'r datganiad polisi hwn yn gam pwysig tuag at gyrraedd y nod hwn. Rydym wedi ymgynghori'n eang wrth ei baratoi a byddwn yn parhau i'w adolygu ar ôl ei gyhoeddi. Byddwn yn rhoi'r polisi ar waith a monitro ein herlyniadau trais yn y cartref gyda phartneriaid cymunedol trwy Baneli Craffu ar Drosedd Casineb. Trwy gynnwys pobl yn y fath fodd, rydym yn gobeithio sicrhau bod ein gwasanaeth yn bodloni anghenion cymunedau lleol a'n bod yn meithrin ymddiriedaeth y cymunedau hyn yn ein gwaith a'r penderfyniadau a wnawn.

16.2 Rydym eisoes yn gweithio'n lleol i gryfhau cysylltiadau â grwpiau cynrychioliadol ac unigolion. Mae hyn o gymorth i ni egluro'r datganiad polisi a sut rydym yn disgwyl iddo weithredu yn y system cyfiawnder troseddol. Byddwn yn ateb cwestiynau am y CPS a'r system cyfiawnder troseddol yn agored a heb godi disgwyliadau ffug am yr hyn y gellir ei gynnig.

17 Cwynion

17.1 Os bydd gan unrhyw un gŵyn am y ffordd y cawsant eu trin gan y CPS, neu os byddant yn teimlo bod y system cyfiawnder troseddol wedi'u siomi ac nad ydynt yn gwybod pwy allai fod yn gyfrifol, gallant ysgrifennu at Brif Erlynydd y Goron ar gyfer yr ardal ble maent yn byw. Mae gan y CPS bolisi cwynion, ac mae taflen sy'n egluro'r drefn i'w dilyn i'w chael yn swyddfa leol y CPS. Mae manylion cyswllt holl Ranbarthau'r CPS i'w cael yn:

www.cps.gov.uk/local/index.html

17.2 Gydag unrhyw gwynion ynghylch y Côd Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr Troseddau ac Addewid yr Erlynwyr, dylid eu cyfeirio yn gyntaf at y CPS fel y gellir ymdrin â hwy dan ein trefn gwynion. Os bydd yr unigolyn yn parhau'n anfodlon, gallant ofyn i'w Haelod Seneddol gyfeirio'r achos at yr Ombwdsman Seneddol.

17.3 Gall sefydliadau cefnogi arbenigol neu gynghorwyr IDVA helpu dioddefwyr i wneud cwyn. Neu, efallai y bydd unrhyw un â chŵyn yn dymuno gofyn am gyngor cyfreithiol ynghylch y dewisiadau sydd ar gael.

18 Casgliad

18.1 Rydym yn benderfynol o chwarae ein rhan i atal trais yn y cartref a dod â throseddwyr o flaen eu gwell. Rydym wedi ymrwymo i wella'r ffordd y mae'r system cyfiawnder troseddol yn delio ag achosion trais yn y cartref ac rydym eisiau i ddioddefwyr a thystion fod â hyder yn y ffordd rydym yn arolygu a bwrw ymlaen ag achosion.

18.2 Rydym yn cydnabod a chroesawu'r cyngor, y gefnogaeth emosiynol a'r cymorth a'r wybodaeth ymarferol a gwerthfawr a gynigir i ddioddefwyr a thystion gan sefydliadau arbenigol a chynghorwyr IDVA sy'n cefnogi dioddefwyr trais yn y cartref. Dangoswyd bod y gefnogaeth hon yn cynorthwyo dioddefwyr a thystion i barhau'n hyderus a gallu mynd ymlaen â'r achos.

18.3 Byddwn yn parhau i weithio gyda'r heddlu a chydweithwyr eraill yn y system cyfiawnder troseddol a'r sector gwirfoddol a chymunedol yn genedlaethol a lleol i'n helpu i ddatblygu arferion gorau.

18.4 Byddwn yn monitro'r ffordd rydym yn delio gydag achosion o drais yn y cartref a byddwn yn cyhoeddi'r wybodaeth hon ar wefan y CPS.

18.5 Byddwn yn arolygu'r datganiad polisi hwn yn rheolaidd er mwyn iddo adlewyrchu'r ddeddfwriaeth a'r meddylfryd cyfredol. Rydym yn croesawu unrhyw sylwadau i'n cynorthwyo i wneud hyn. Dylid anfon sylwadau ac awgrymiadau at y Gyfarwyddiaeth Polisi, 6ed Llawr, Gwasanaeth Erlyn y Goron, Rose Court, 2 Southwark Bridge Llundain SE1 9HS 7EX neu HQPolicy@cps.gsi.gov.uk.

18.6 Mae'r datganiad polisi hwn ar gael mewn ieithoedd eraill a ffurfiau gwahanol. I ofyn am gopi, cysylltwch â Changen Cyfathrebu y CPS. Mae'r manylion cyswllt wedi'u hargraffu ar glawr ôl y ddogfen hon.

Geirfa

Achosion Sifil
Achosion annhroseddol yw'r rhain, sydd fel arfer yn digwydd yn y Llys Sirol neu'r Uchel Lys. Ymhlith yr enghraifft o achosion sifil y mae gorchmynion rhag molestu, achosion ysgaru, cyswllt â phlant a phreswylio.

Achwynydd
Person sy'n honni bod trosedd wedi'i gyflawni yn eu herbyn.

Ailholi
Mae hyn yn golygu bod y tyst yn cael ei holi eto yn y llys gan y sawl a alwodd yn wreiddiol arno ef neu hi i roi tystiolaeth. Mae'n dilyn croesholi.

Apêl
Cais ar i lys uwch newid penderfyniad a wnaed gan lys is.

Canolwr
Canolwr yw person sydd wedi'i hyfforddi yn arbennig i helpu plant ac oedolion a ystyrir yn agored i niwed er mwyn iddynt allu cyfathrebu yng ngorsaf yr heddlu ac yn y llys.

Côd ar gyfer Erlynwyr y Goron
Dogfen sy'n disgrifio sut bydd y CPS yn gwneud penderfyniadau ynghylch achosion. Y mae ar gael yn eang i'r cyhoedd o unrhyw rai o'n swyddfeydd, ac fe'i ceir ar y rhyngrwyd yn:

www.cps.gov.uk/victims_witnesses/code.html.

Croesholi
Herio'r dystiolaeth a roddir gan dyst yn y llys.

Cyhuddo
Pan fydd person dan amheuaeth yn cael ei gyhuddo'n ffurfiol o gyflawni trosedd.

Cyhuddo statudol
Y system sy'n golygu mai'r CPS sy'n gyfrifol am benderfynu (ym mhob achos heblaw'r rhai lleiaf) a ddylai person dan amheuaeth gael ei gyhuddo, ac, os dylai, beth ddylai'r cyhuddiad(au) fod.

Cynghorwyr Trais yn y Cartref Annibynnol (IDVA)
Arbenigwr annibynnol sy'n gweithio ochr yn ochr â dioddefwyr o adeg yr argyfwng, trwy gydol y broses gyfreithiol, a thu hwnt. Byddant yn creu cyswllt â gwasanaethau hanfodol megis sefydliadau cefnogi dioddefwyr a thystion, sefydliadau cynghori, iechyd a thai, gan sicrhau bod asiantaethau yn cydgysylltu i gadw'r dioddefwr yn ddiogel.

Diffynnydd
Person sy'n cael ei gyhuddo o gyflawni trosedd.

Dioddefwr
Person y mae rhywun wedi troseddu yn ei erbyn ef neu hi.

Erlynydd
Y sawl sy'n cyflwyno'r achos yn erbyn un neu fwy o ddiffynyddion. Mae erlynwyr yn cyflwyno achosion ar ran y Goron (hynny yw, y wladwriaeth) ac nid ydynt yn gweithredu ar ran dioddefwyr.

Euogfarnu
Penderfyniad gan ynadon neu reithgor bod y diffynnydd yn euog.

Gohiriad
Gohirio gwrandawiad yr achos tan ryw ddyddiad yn y dyfodol.

Gorchmynion Rhag Molestu
Gorchymyn llys yw hwn wedi'i gyfeirio at berson neilltuol sy'n gwahardd y person hwnnw rhag gwneud rhai gweithredoedd, neu barhau â'r gweithredoedd hynny. Yn nodweddiadol, mae'n atal y person hwnnw rhag peri niwed i unigolyn arall a enwir.

Gwrandawiad Newton
Gall y llys benderfynu cynnal 'gwrandawiad Newton' os bydd y diffynnydd wedi pledio'n euog, ond yr amddiffyniad a'r erlyniad yn dadlau am y ffeithiau y bydd y llys yn eu defnyddio'n sail wrth benderfynu ar ddedfryd y diffynnydd. Pwrpas y gwrandawiad yw sefydlu'r sail ffeithiol ar gyfer pennu'r ddedfryd.

Gwŷs tystio
Gorchymyn llys i unigolyn ymddangos yn y llys mewn lleoliad penodol ac ar adeg benodol.

Llys y Goron
Llys ble bydd barnwr a rheithgor o ddeuddeg aelod o'r cyhoedd yn delio ag achosion troseddol. Yr achosion a wrandewir yn Llys y Goron yw'r rhai sy'n debygol o ddenu dedfrydau uwch (er enghraifft, treisio, niwed corfforol difrifol a llofruddiaeth). Bydd Llys y Goron hefyd yn delio ag apeliadau ar gyfer achosion y bydd y llysoedd ynadon a llysoedd ieuenctid yn delio â nhw.

Llys ynadon
Llys ble bydd ynadon neu farnwyr rhanbarth yn delio ag achosion troseddol. Mae llysoedd ynadon yn dueddol o ddelio ag achosion sy'n denu dedfrydau is, megis ymosod cyffredin a difrod troseddol.

Mechnïaeth
Rhyddhau unigolyn sy'n cael ei gadw yn y ddalfa tra bydd yn disgwyl am dreial neu'n apelio yn erbyn euogfarn troseddol.

Mesurau arbennig
Y cymorth y gall llys ei gynnig i dystion er mwyn iddynt allu rhoi eu tystiolaeth orau yn y llys. Mae hyn yn cynnwys: cyswllt fideo byw, datganiadau wedi'u recordio ar fideo, sgriniau o amgylch y bocs tystion, a chymorth gyda chyfathrebu.

Paneli Craffu ar Drosedd Casineb
Paneli ble bydd cyfiawnder troseddol a phartneriaid cymunedol yn craffu ar achosion o droseddau casineb – gan gynnwys trais yn y cartref – a aeth trwy'r system cyfiawnder troseddol. Mae'r paneli hyn yn bodoli yn holl Ranbarthau'r CPS.

Ple
Pan fydd diffynnydd yn dweud ei fod ef neu hi yn euog neu'n ddieuog.

Prif holiad
Cwestiynu'r tyst gan y garfan a alwodd arno efo neu hi. Bydd tystion yr erlyniad yn cael eu holi gan yr erlyniad yn gyntaf, cyn cael eu croesholi gan yr amddiffyniad.

Rhaglen i gyflawnwyr troseddau
Rhaglenni strwythuredig yw'r rhain ar gyfer y rhai sy'n cyflawni trais yn y cartref. Mae'r rhaglenni ar gyfer pobl sy'n cyflawni trais yn y cartref yn cynnwys: sesiynau grŵp gyda'r cyflawnwr; cyswllt gyda dioddefwyr hysbys a phartner presennol y cyflawnwr; asesiad risg a rheoli risg rhwng asiantaethau; a rheolaeth ragweithiol ar droseddwyr. Nod y rhaglenni hyn yw cynyddu diogelwch y dioddefwr a phlant trwy ddwyn y cyflawnwyr i gyfrif am eu hymddygiad.

Treial
Bydd hyn yn digwydd ar ôl i ddiffynnydd bledio'n ddieuog neu wrthod pledio. Bydd yr ynadon neu'r rheithgor yn clywed beth ddigwyddodd gan yr erlyniad a'r amddiffyniad, er mwyn iddynt allu penderfynu a yw'r diffynnydd yn euog ai peidio.

Tyst
Person sy'n gallu rhoi tystiolaeth berthnasol mewn achos troseddol. Fel arfer bydd hyn yn cynnwys dioddefwr y trosedd.

Tystiolaeth
Y wybodaeth a roddir i'r llys i'w helpu i wneud penderfyniad ynghylch a yw diffynnydd yn euog ai peidio. Y 'dystiolaeth flaenaf' yw'r dystiolaeth a gyflwynir i'r llys yn ystod y prif holiad.

Uned Gofal Tystion
Mae Unedau Gofal Tystion yn cael eu rhedeg gan yr heddlu a'r CPS, gan roi help a gwybodaeth i ddioddefwyr a thystion yr erlyniad.

Atodiad A

Dyma rai enghreifftiau o'r mathau o ymddygiad sy'n gallu digwydd mewn achosion o drais yn y cartref ac a ALLAI fod yn gyfystyr â throsedd.

Amgylchiadau'r achos penodol fydd yn pennu bob tro a yw unrhyw ymddygiad neilltuol yn gyfystyr â throsedd. Felly dylid trin yr enghreifftiau hyn fel canllawiau yn unig.

* Os yw'r geiriau/ymddygiad bygythiol neu afreolus yn cael eu defnyddio mewn tŷ annedd, er mwyn i'r trosedd gael ei gyflawni rhaid i'r person arall beidio â bod y tu mewn i'r anheddle hwnnw neu anheddle arall.

** Rhaid profi gwir niwed corfforol neu feddyliol o ganlyniad i'r ymddygiad.

Enghreifftiau o ymddygiad	Troseddau posib
Rhoi pwysau ar ddioddefwr/tyst i "ollwng yr achos" neu beidio â rhoi tystiolaeth.	Dychryn tyst, rhwystro cwrs cyfiawnder, cynllwynio i wyrdroi cwrs cyfiawnder.
Trais corfforol, gyda neu heb arfau, gan gynnwys: dyrnu, slapio, gwthio, cicio, penio, a thynnu gwallt.	Ymosod cyffredin, gwir niwed corfforol/niwed corfforol difrifol, clwyfo, ymgais i lofruddio.
Trais sy'n arwain at farwolaeth.	Llofruddiaeth, dynladdiad.

Enghreifftiau o ymddygiad	Troseddau posib
Trais sy'n arwain at golli plentyn yn y groth.	Difa plentyn, achosi colli plentyn yn y groth neu erthyliad.
Tagu, llindagu, mygu.	Ymosod cyffredin, gwir niwed corfforol/niwed corfforol difrifol, ceisio tagu, llindagu neu fygu.
Poeri at rywun.	Ymosod cyffredin.
Bygwth gydag eitem a ddefnyddir fel arf e.e. cyllell, erfyn, ffôn, cadair.	Bygwth lladd, ymosod cyffredin, affräe, ymddygiad bygythiol.
Taflu eitemau, e.e. llestri, hyd yn oed os byddant yn methu'r nod.	Ymosod cyffredin, gwir niwed corfforol/niwed corfforol difrifol, clwyfo, difrod troseddol, affräe, ymddygiad bygythiol.
Clymu rhywun.	Ymosod cyffredin, gwir niwed corfforol, carcharu ar gam.
Bygwth lladd rhywun.	Bygwth lladd, aflonyddu.
Bygwth achosi niwed.	Ymosod cyffredin, affräe, ymddygiad bygythiol*.
Bygythiadau difrifol i niweidio neu danseilio statws cymdeithasol.	Aflonyddu, blacmelio.
Difrodi neu ddinistrio eiddo neu fygwth difrodi neu ddinistrio eiddo.	Difrod troseddol, bygwth achosi difrod troseddol, aflonyddu.

Enghreifftiau o ymddygiad	Troseddau posib
Niweidio neu fygwth niweidio anifail anwes.	Difrod troseddol, bygwth achosi difrod troseddol, creulondeb wrth anifeiliaid, aflonyddu.
Cloi rhywun mewn stafell neu dŷ neu ei atal ef neu hi rhag gadael.	Carcharu ar gam, aflonyddu.
Atal rhywun rhag ymweld â perthnasau neu ffrindiau.	Carcharu ar gam, herwgipio, aflonyddu.
Rhwystro rhywun rhag chwilio am gymorth, e.e. sylw meddygol.	Carcharu ar gam, gwir niwed corfforol.
Rhwystro rhywun rhag gwisgo fel ag y maent yn dymuno neu eu gorfodi i wisgo colur, gemwaith neu steil gwallt penodol.	Gwir niwed corfforol**, aflonyddu.
Cam-drin hiliol.	Ymddygiad bygythiol dwysach ar sail hil*, ymddygiad afreolus* neu aflonyddu.
"Datguddio", e.e. tueddfryd rhywiol neu statws HIV.	Aflonyddu, gwir niwed corfforol**, blacmelio.
Gorfodi dibyniaeth ariannol neu amddifadu rhywun o arian yn afresymol.	Aflonyddu.

Enghreifftiau o ymddygiad	Troseddau posib
Camdriniaeth yn gysylltiedig â hawlio gwaddol priodas.	Blacmelio, aflonyddu, ymosod cyffredin, gwir niwed corfforol/niwed corfforol difrifol.
Gofynion ariannol afresymol.	Blacmelio, aflonyddu.
Priodas orfodol.	Herwgipio, blacmelio, carcharu ar gam, ymosod cyffredin, gwir niwed corfforol/niwed corfforol difrifol, treisio, ymosod anweddus.
Gorfodi gweithgarwch rhywiol.	Treisio, ymosod anweddus, aflonyddu, byw oddi ar enillion anfoesol.
Cam-drin geiriol parhaus, e.e. beirniadaeth afresymol gyson.	Aflonyddu, gwir niwed corfforol**.
Torri amodau gorchymyn rhag molestu.	Torri gorchymyn rhag molestu.
Galwadau ffôn, negeseuon testun neu lythyrau tramgwyddus/anllad/bygythiol.	Defnydd anweddus o systemau telegyfathrebu cyhoeddus, gohebiaethau maleisus, gwir niwed corfforol/niwed corfforol difrifol**, aflonyddu.
Cysylltiad gormodol, e.e. galwadau ffôn niferus i gael gwybod lle mae rhywun.	Aflonyddu, carcharu ar gam.

Enghreifftiau o ymddygiad	Troseddau posib
Rhoi cyffuriau yn gyfrinachol neu orfodi cyffuriau ar rywun.	Ymosod cyffredin, gwir niwed corfforol, niwed corfforol difrifol, rhoi gwenwyn.
Esgeuluso, gadael neu gam-drin plentyn.	Creulondeb wrth blant.
"Troseddau anrhydedd".	Llofruddiaeth, helpu ac annog hunanladdiad.
Enwaediad Merched.	Llurgunio organau rhywiol merched.
Gorfodi mynediad i dŷ.	Defnyddio trais i gael mynediad.

Atodiad B

Mechnïaeth

Gall llys remandio diffynnydd yn y ddalfa neu ganiatáu mechnïaeth, gyda neu heb amodau. Cyn y gwrandawiad llys cyntaf, gall yr heddlu hefyd gadw diffynnydd yn y ddalfa neu ganiatáu mechnïaeth, gyda neu heb amodau, ond mae eu pwerau i wneud hynny'n fwy cyfyng nag eiddo'r llys. Ni ellir ond gosod amodau er mwyn sicrhau bod y diffynnydd yn mynychu'r gwrandawiad llys nesaf, nad yw'n cyflawni troseddau newydd yn y cyfamser, ac nad yw'n ymyrryd ag unrhyw dystion neu'n rhwystro cwrs cyfiawnder.

Enghreifftiau o amodau mechnïaeth a osodir gan lysoedd

Gall llys osod unrhyw amodau sy'n ymddangos yn briodol dan amgylchiadau'r achos penodol. Dyma enghreifftiau o amodau mechnïaeth nodweddiadol a osodir gan lysoedd:

- **rhaid i'r diffynnydd beidio â chysylltu, un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, â pherson neu bersonau a enwir, er enghraifft y dioddefwr ac unrhyw blentyn.**

Mae hyn yn golygu dim cyswllt o gwbl, gan gynnwys dros y ffôn, testun, e-bost, ffacs neu lythyr na thrwy berson arall, e.e. ni all y diffynnydd gael perthynas i gysylltu ar ei r(h)an.

- **rhaid i'r diffynnydd beidio â mynd i le a enwir, er enghraifft gweithle'r dioddefwr, ardal siopa neu ysgol y plant.**

Fel arfer bydd hwn yn gyfeiriad penodol, ond gall hefyd fod yn stryd, tref, ardal neu hyd yn oed yn sir gyfan. Gall gynnwys ysgolion, meddygfeydd, a chyfeiriadau teulu a ffrindiau. Weithiau

bydd y llys yn dweud bod raid i'r diffynnydd beidio â mynd o fewn pellter penodol i le, e.e. o fewn hanner milltir i Ffordd Victoria. Weithiau, am resymau ymarferol, bydd eithriadau yn gysylltiedig â'r amod, er enghraifft:

- **rhaid i'r diffynnydd beidio â mynd i le a enwir ac eithrio:**
  - **i fynychu'r llys;**
  - **i weld cyfreithiwr trwy apwyntiad o flaen llaw;**
  - **unwaith i gasglu eiddo personol ar amser penodedig ac yng nghwmni heddwas neu berson arall a nodir;**
  - **i weld y plant, dan arolygiaeth, ac ar amser penodedig** (fel arfer bydd y Llys Teulu yn asesu a gwneud trefniadau o'r fath).

- **rhaid i'r diffynnydd breswylio mewn cyfeiriad a enwir.**

Mae hyn yn golygu byw a chysgu yno bob nos.

- **rhaid i'r diffynnydd ymbresenoli mewn gorsaf heddlu a enwir ar ddiwrnod neu ddiwrnodau penodol ar amser penodol.**

Er enghraifft, bob bore yn ystod yr wythnos rhwng 8.30am a 10.00am

- **rhaid i'r diffynnydd gadw at gyrffiw rhwng rhai oriau penodol.**

Mae hyn yn golygu aros yn y tŷ, er enghraifft, o 9pm tan 8am.

- **rhaid i'r diffynnydd roi gwarant i'r llys.**

Os credir o bosib na fydd y diffynnydd yn mynychu'r gwrandawiad llys nesaf, gall y llys orchymyn bod swm penodol o arian yn cael ei dalu i'r llys. Os bydd y diffynnydd yn methu mynychu'r gwrandawiad nesaf yna gall golli'r arian.

• **rhaid i'r diffynnydd ddarparu meichiau.**

Rhaid i ffrind neu berthynas gytuno i sicrhau bod y diffynnydd yn mynychu'r llys, neu gallai'r ffrind neu'r perthynas golli swm penodol o arian

• **rhaid i'r diffynnydd wisgo tag electronig.**

Mae'r amod hwn ar gael ar gyfer oedolion neu blant sydd wedi cyrraedd deuddeg oed yn unig ac sydd wedi'u cyhuddo neu a gafodd eu heuogfarnu o drosedd treisgar neu rywiol. Dylai'r tagiau sicrhau bod unrhyw dorri amodau yn cael ei gofnodi a'i fonitro gan gwmni diogelwch a fydd yn hysbysu'r heddlu ar unwaith. Gall torri amodau arwain at arestio a'r posibilrwydd o remandio yn y ddalfa.

Torri amodau mechnïaeth

Os bydd y diffynnydd yn torri amodau mechnïaeth, gall yr heddlu arestio'r diffynnydd a gall y llys remandio'r diffynnydd yn y ddalfa.

Weithiau, er gwaethaf amodau mechnïaeth sy'n dweud, er enghraifft, na chaiff diffynnydd gysylltu â'r dioddefwr na dychwelyd gartref, bydd y dioddefwr yn cysylltu â'r diffynnydd neu'n gwahodd y diffynnydd i ddychwelyd gartref.

Y mae pob math o resymau pam y bydd dioddefwyr yn gwneud hyn o bryd i'w gilydd, ond os bydd y diffynnydd yn ymateb mewn ffordd sy'n parhau â'r cysylltiad, yna mae'r diffynnydd yn torri amodau'r fechnïaeth oherwydd nad yw'r heddlu neu'r llys wedi rhyddhau'r diffynnydd rhag amodau'r fechnïaeth a osodwyd ganddynt.

Nid oes wahaniaeth fod y dioddefwr wedi cytuno â'r cysylltu neu mai'r dioddefwr a gysylltodd yn y lle cyntaf; nid y dioddefwr sy'n gaeth i amodau'r fechnïaeth, eithr y diffynnydd. Mae'r diffynnydd yn gyfrifol am gydymffurfio ag unrhyw amodau a osodir gan yr heddlu neu'r llys hyd nes y bydd yn cael ei ryddhau rhag yr amodau hynny gan yr heddlu neu'r llys.

Yn ogystal â thorri mechnïaeth, mae'n bosib y bydd troseddau newydd wedi'u cyflawni a gallai'r diffynnydd gael ei erlyn amdanynt.

Atodiad C

Dyma restr o fanylion cysylltu sefydliadau cenedlaethol sy'n rhoi cymorth neu wybodaeth i ddioddefwyr trais yn y cartref. Fe ddylen nhw allu rhoi manylion cyswllt ar gyfer sefydliadau lleol.

Llinell gymorth 24 awr Trais yn y Cartref

Mae'r llinell gymorth radffon gyfrinachol, 24 awr ar gyfer dioddefwyr trais yn y cartref yn cael ei rhedeg mewn partneriaeth gan Refuge a Chymorth i Fenywod. Mae'r llinell gymorth yn rhoi cymorth, gwybodaeth a chlust i wrando ar gyfer menywod sy'n dioddef (neu a fu'n dioddef) yn sgil camdriniaeth yn y cartref a'r rhai sy'n ceisio cael cymorth ar ran menyw ac, os yw'n briodol, mae'n cyfeirio pobl at loches neu ffynonellau cymorth a gwybodaeth eraill.
Dyma'r rhif ffôn rhadffon 24 awr:

Ffôn: 0808 2000 247

Broken Rainbow

Mae Broken Rainbow yn rhoi cymorth i lesbiaid, dynion hoyw, pobl ddeuryw a thrawsrywiol (LGBT) ym Mhrydain sy'n dioddef yn sgil trais yn y cartref, trais homoffobig, trawsffobig a thrais gan bobl o'r un rhyw.
Rhif ffôn Broken Rainbow: 0845 260 4460
E-bost: mail@broken-rainbow.org.uk

ChildLine

ChildLine yw'r llinell gymorth 24 awr i blant a phobl ifanc yn y DU i drafod unrhyw broblem, ddydd neu nos.
Ffôn: 0800 1111

MALE (Llinell Gymorth i Ddynion)

Llinell gyfrinachol i ddynion sy'n dioddef trais gan eu partneriaid neu gyn-bartneriaid.
Ffôn: 0808 801 0327
E-bost: info@mensadviceline.org.uk
Gwefan: www.mensadviceline.org.uk

Action on Elder Abuse

Mae Action on Elder Abuse yn gweithio i amddiffyn ac atal cam-drin oedolion hŷn sy'n agored i niwed.
Astral House
1268 London Road
Llundain SW16 4ER
Ffôn: 0808 808 8141
E-bost: enquiries@elderabuse.org.uk
Gwefan: www.elderabuse.org.uk

IMKAAN

Elusen genedlaethol sy'n rhoi cefnogaeth sefydliadol strategol ac wedi'i thargedu i ffoaduriaid, gan wasanaethu anghenion menywod a phlant Asiaidd sy'n wynebu trais yn y cartref.
Tindlemanor
4ydd Llawr
52 – 54 Featherstone Street
Llundain EC1Y 8RT
Ffôn: 0207 250 3933
E-bost: admin@imkaan.org.uk

NSPCC – Llinell Gymorth Genedlaethol Amddiffyn Plant

Llinell gymorth ar gyfer pobl sy'n pryderu am blant a allai fod mewn perygl o gael eu cam-drin, gan gynnwys plant eu hunain. Mae'n cynnig cyngor a gwybodaeth am ofalu am blant, materion cyfreithiol, cam-drin rhywiol, corfforol neu emosiynol, esgeulustod ac ati.

Mae'r llinell gymorth yn wasanaeth cyfrinachol, am ddim sydd ar agor 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos.

Ffôn: 0808 800 5000
E-bost: help@nspcc.org.uk

National Association of Gypsy Women

Grŵp cefnogi i Sipsiwn a theithwyr sy'n wynebu trais yn y cartref.
Meadow View
Goldsmith Drive
Rayleigh
Essex SS6 9R5
Ffôn: 01268 782 792

Refuge

Elusen genedlaethol i fenywod a phlant sy'n wynebu trais yn y cartref yw Refuge. Dyma'r corff mwyaf yn y DU sy'n darparu llety arbenigol a chefnogaeth i fenywod a phlant sy'n dianc rhag trais yn y cartref.

4ydd Llawr
International House
1 St Katherine's Way
Llundain E1W 1UN
Ffôn: 020 7395 7700
Llinell Gymorth Genedlaethol Trais yn y Cartref: 0808 2000 247
E-bost: info@refuge.org.uk
Gwefan: www.refuge.org.uk

Respect

Mae Respect yn gorff sydd ag aelodau ledled y DU. Sefydliad yw hwn ar gyfer ymarferwyr a chyrff sy'n gweithio gyda phobl sy'n cyflawni trais yn y cartref ac sy'n gwneud gwaith cysylltiol gyda phartneriaid a chyn-bartneriaid sy'n fenywod. Yn bennaf mae Respect yn canolbwyntio ar wella diogelwch y rhai sy'n wynebu trais yn y cartref trwy hyrwyddo camu-i-mewn gyda chyflawnwyr trais yn y cartref.

1st Floor Downstream Building
1 London Bridge
Llundain SE1 9BG
Ffôn: 020 7022 1801
E-bost: info@respect.uk.net
Gwefan: www.respect.uk.net

Cymorth i Ddioddefwyr

Mae Cymorth i Ddioddefwyr yn elusen genedlaethol annibynnol sy'n cynorthwyo pobl i ymdopi ag effeithiau troseddu. Mae'n rhoi cefnogaeth a gwybodaeth gyfrinachol yn rhad ac am ddim i helpu dioddefwyr ddelio â'u profiadau.

Llinell Cymorth i Ddioddefwyr: 0845 30 30 900
E-bost: supportline@victimsupport.org.uk

Y Gwasanaeth Tystion

Cymorth i Ddioddefwyr sy'n rhedeg y gwasanaeth i dystion yn holl lysoedd troseddau Cymru a Lloegr, i roi gwybodaeth a chefnogaeth i dystion, dioddefwyr, eu teuluoedd a'u ffrindiau pan fyddant yn mynd i'r llys.

Swyddfa Genedlaethol
Cranmer House
39 Brixton Road
Llundain
SW9 6DZ
Ffôn: 0207 735 9166
Ffacs: 0207 582 5712
E-bost: contact@victimsupport.org.uk

Women's Aid

Mae Women's Aid yn elusen genedlaethol allweddol sy'n gweithio yn Lloegr i roi diwedd ar drais yn y cartref i fenywod a phlant. Mae'n cefnogi rhwydwaith o dros 500 gwasanaeth trais yn y cartref a thrais rhywiol ledled y Deyrnas Unedig.

Blwch Post 391
Bryste
BS99 7WS
Lloegr
Ffôn: 0117 944 4411
Ffacs: 0117 924 1703
Llinell Gymorth Genedlaethol Trais yn y Cartref:
0808 2000 247
E-bost: info@womensaid.org.uk; helpline@womensaid.org.uk

Cymorth i Fenywod Cymru

Mae Cymorth i Fenywod yn elusen genedlaethol allweddol sy'n gweithio yng Nghymru i roi diwedd ar drais yn y cartref i fenywod a phlant. Mae'n cefnogi rhwydwaith o dros 500 gwasanaeth trais yn y cartref a thrais rhywiol ledled y Deyrnas Unedig.

Cymorth i Fenywod
38-48 Heol Crwys
Caerdydd
CF24 4NN
Ffôn: 029 2039 0874
Llinell Gymorth Cam-drin yn y Cartref Cymru: 0808 801 0800
Gwefan: www.welshwomensaid.org

CAADA (Coordinated Action Against Domestic Abuse)

Mae CAADA yn gweithio i greu ymateb cyson, proffesiynol ac effeithiol i holl ddioddefwyr trais yn y cartref, yn enwedig y rhai sy'n wynebu risg uwch. Maent yn darparu hyfforddiant achrededig ar gyfer cynghorwyr IDVA a MARAC yn genedlaethol ac maent wedi datblygu safonau IDVA achrededig ar gyfer gwasanaethau IDVA. Maent yn cynnig cefnogaeth barhaus i'r rhai a hyfforddwyd ganddynt.

CAADA
6ed Llawr
Market House
Baldwin Street
Bryste
Ffôn: 0117 3178750
Ffacs: 0117 3763364

Mae hon yn ddogfen gyhoeddus.
Y mae ar gael ar wefan y CPS: www.cps.gov.uk
Mae rhagor o gopïau o'r ddogfen hon ar gael gan:

Cangen Cyfathrebu y CPS
Rose Court
2 Southwark Bridge
Llundain SE1 9HS

E-bost: publicity.branch@cps.gsi.gov.uk

Cyfarwyddiaeth Polisi y CPS
© Hawlfraint y Goron 2009

Y mae cyfieithiadau i ieithoedd eraill a chopïau sain ar gael ar eich cais gan Gangen Cyfathrebu y CPS